# TRWYDDED RANBARTHOL CHANNEL 3 ITV WALES CYMRU

## ATODIAD I HYSBYSIAD AMRYWIO DYDDIEDIG 12 MEDI 2024 A HYSBYSIAD ADNEWYDDU DYDDIEDIG 12 MEDI 2024

## MYNEGAI I'R ATODLEN


TRWYDDED RANBARTHOL CHANNEL 3 ITV WALES CYMRU ... 1

MYNEGAI I'R ATODLEN ... 1

ATODLEN ... 4

Rhan 1: DIFFINIADAU A DEHONGLIADAU YNGHYLCH Y DRWYDDED ... 4

1. Diffiniadau a Dehongliadau ... 4

RHAN 2: AMODAU CYFFREDINOL ... 10

2. Darparu Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol gan y Trwyddedai ... 10

3. Gwahardd Gosod Taliadau ... 12

4. Ffioedd ... 13

5. Taliadau Ychwanegol a Chyfraniadau i'r Archif Teledu Genedlaethol ... 13

6. T.A.W. ... 15

7. Cylch Gwaith Gwasanaeth Cyhoeddus a Pholisi Rhaglen ... 15

8. Trefniadau Rhwydweithio ... 17

9. Gwneud Rhaglenni Rhanbarthol ... 18

10. Rhaglenni Rhanbarthol ... 19

11. Comisiynu Cynyrchiadau Annibynnol ... 21

12. Darlledu Cynyrchiadau Annibynnol ... 22

13. Cynyrchiadau Gwreiddiol ... 22

14. Safonau a Gofynion Cyffredinol ... 23

14A. Gofynion ar gyfer delio â chyfathrebiadau gan wylwyr ... 23

14B. Safonau'r ECTT ... 25

15. Newyddion a Materion Cyfoes ... 26

16. Penodi Darparwr Newyddion ... 27

17. Darllediadau Gwleidyddol gan Bleidiau ... 28

18. Digwyddiadau Rhestredig ... 29

19. Safonau a Gofynion Hysbysebu a Nawdd ... 32

20. Isdeitlo, Iaith Arwyddion a Disgrifiadau Sain ... 33

21. Trefniadau Trawsyrru a Safonau a Gofynion Technegol ar gyfer y Gwasanaeth Rhanbarthol Channel 3 ... 33

22. Cadw a Chynhyrchu Recordiadau ... 34

23. Darparu Gwybodaeth i Ofcom yn gyffredinol ... 35

24. Hysbysiadau i Ofcom ... 36

25. Adnewyddu'r Drwydded ... 39

26. Cystadleuaeth Deg ac Effeithiol ... 41

27. Cydymffurfio â Chyfyngiadau ar Berchnogaeth ... 42

28. Trosglwyddo'r Drwydded ... 42

29. Cydymffurfio ... 42

30. Cyfarwyddiadau a Sylwadau’r Llywodraeth ... 44

31. Cwynion Safonau ... 45

32. Cwynion Tegwch a Phreifatrwydd ... 46

33. Cyhoeddi Swyddogaethau Ofcom ... 47

34. Pŵer Ofcom i Amrywio Amodau Trwydded ... 47

35. Hysbysiadau a Gwasanaeth ... 48

36. Cyfle Cyfartal a Hyfforddiant ... 49

RHAN 3: EITHRIADAU A CHYFYNGIADAU AR RWYMEDIGAETHAU’R TRWYDDEDAI ... 51

38. Force Majeure ... 51

RHAN 4: AMODAU YNGHYLCH GORFODI’R DRWYDDED ... 52

39. Cosbau am Dorri Amod ... 52

40. Dirymu ... 54

ATODIAD I DRWYDDED RANBARTHOL CHANNEL 3: CYMRU ... 59

ATODIAD RHAN 1: Gofynion ar gyfer darpariaeth a chynnwys y Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol ... 59

1. Diffiniadau a Dehongliadau ... 59

2. Cynyrchiadau Annibynnol ... 59

3. Cynyrchiadau Gwreiddiol ... 59

4. Newyddion ... 59

5. Materion Cyfoes ... 59

6. Cynhyrchu yn y Gwledydd a'r Rhanbarthau ... 60

7. Rhaglenni Rhanbarthol ........ 60
8. Isdeitlo, Iaith Arwyddion a Disgrifiadau Sain ........ 61
ATODIAD RHAN 2: Dyddiau ac amseroedd darlledu ........ 62
ATODIAD RHAN 3: Manylion Gorsafoedd Darlledu Daearol Digidol - Prif Orsafoedd a Gorsafoedd Ategol Dibynnol ........ 63
IS-RANBARTH CYMRU ........ 63
BLAENPLWYF ........ 63
CARMEL ........ 63
KILVEY HILL ........ 64
LLANDDONA ........ 64
CEFN DIGOLL ........ 64
MOEL-Y-PARC ........ 65
PRESELI ........ 65
GWENFÔ ........ 66
IS-RANBARTH GORLLEWIN LLOEGR ........ 68
MENDIP ........ 68

# ATODLEN

## Rhan 1: DIFFINIADAU A DEHONGLIADAU YNGHYLCH Y DRWYDDED

### 1. Diffiniadau a Dehongliadau

(1) Yn y Drwydded hon, oni bai fod y cyd-destun yn nodi'n wahanol:

ystyr **"Deddf 1990"** yw Deddf Darlledu 1990 (fel y'i diwygiwyd);

ystyr **"Deddf 1996"** yw Deddf Darlledu 1996 (fel y'i diwygiwyd);
bydd cyfeiriadau at unrhyw **"gyfnod cyfrifyddu"** y Trwyddedai yn cael eu dehongli yn unol ag Adran 19(9) o Ddeddf 1990;

mae cyfeiriadau at **"yr holl godau a chanllawiau perthnasol"** yn cyfeirio at yr holl godau a chanllawiau y cyfeirir atynt yn y Drwydded hon, Deddf 1990, Deddf 1996 neu'r Ddeddf Cyfathrebiadau;

ystyr **"Trwydded Analog"** yw trwydded analog y Trwyddedai sydd mewn grym yn union cyn dyfarnu'r Drwydded hon;

ystyr **"Darparwr Newyddion Penodedig"** yw'r darparwr newyddion a benodir yn unol ag Adran 280 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau neu y mae ei benodiad yn dod i rym yn rhinwedd paragraff 35 o Atodlen 18 i'r Ddeddf Cyfathrebiadau;

bydd "**Rhwydwaith Priodol**" yn cael ei ddehongli yn unol ag adran 272(7) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau at ddiben dehongli Amodau 2(1A) i 2(1D) o'r drwydded hon;

ystyr **"Canran Briodol"**, mewn perthynas ag unrhyw flwyddyn (y **"flwyddyn berthnasol"**), yw'r ganran sy'n cyfateb i'r cynnydd canrannol rhwng:

(a) y mynegai prisiau manwerthu ar gyfer mis Tachwedd yn y flwyddyn cyn y flwyddyn galendr gyflawn gyntaf sy'n dod o fewn y Cyfnod Trwyddedu; a'r

(b) mynegai prisiau manwerthu ar gyfer mis Tachwedd yn y flwyddyn cyn y flwyddyn berthnasol;

ac at y diben hwn, ystyr y **"mynegai prisiau manwerthu"** yw'r mynegai prisiau cyffredinol (ar gyfer pob eitem) a gyhoeddir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol;

ystyr **"Cyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol"** yw Cyfarwyddeb 2010/13/EU, fel y'i diwygiwyd gan Gyfarwyddeb 2018/1808/EU;

ystyr **"trwydded amlblecs C3/C4"** yw'r drwydded a roddwyd i Digital 3 a 4 Limited o dan Ran 1 o Ddeddf 1996 ar 19 Rhagfyr 1997 ac a adnewyddwyd gan Ofcom ar 3 Mehefin 2009 a 26 Mai 2022;

ystyr “**Bid Ariannol**” yw’r swm y cytunwyd arno gan y Trwyddedai dan y Drwydded Analog, fel y swm sydd i’w dalu ganddynt yn unol â’r darpariaethau a nodir yn Amod 5 isod neu, os yw’n wahanol, y swm y cytunwyd iddo gael ei dalu ganddynt yn unol â’r Drwydded hon, neu unrhyw adnewyddu o'r Drwydded hon, yn unol â’r darpariaethau a nodir yn Amod 5 isod;

ystyr y **“Cod ar Chwaraeon a Digwyddiadau Rhestredig a Dynodedig eraill”** yw'r cod sy’n rhoi arweiniad ynghylch darlledu chwaraeon a digwyddiadau rhestredig eraill fel y cânt eu llunio ac, o bryd i’w gilydd, eu diwygio gan Ofcom yn unol ag Adran 104 o Ddeddf 1996;

ystyr y **“Cod ar Wasanaethau Mynediad Teledu”** yw'r cod sy’n rhoi arweiniad ynghylch:

(a) i ba raddau y dylai gwasanaethau Channel 3 Rhanbarthol, ond nid amserlenni rhaglenni electronig, hybu dealltwriaeth a mwynhad pobl sy’n fyddar neu’n drwm eu clyw a chan bobl ddall neu rannol ddall a chan bobl sydd ag amhariad ar y clyw a’r golwg, o'r rhaglenni sydd i’w cynnwys yn y gwasanaethau hynny; a’r

(b) modd y dylid hyrwyddo dealltwriaeth a mwynhad o’r fath;

fel y cânt eu llunio ac o bryd i’w gilydd eu hadolygu gan Ofcom yn unol ag Adran 303 y Ddeddf Cyfathrebiadau;

ystyr **“Dyddiad Cychwyn”** yw’r dyddiad y cyfeirir ato yng Nghymal 3 y Drwydded;

mae **“Deddf Cyfathrebiadau”** yn golygu Deddf Cyfathrebiadau 2003;

ystyr **“Dosbarthu”** yw trosglwyddo gwasanaethau Channel 3 (drwy ba fodd bynnag ac a boed yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol) i’r gorsafoedd darlledu maent yn cael eu darlledu ohonynt er mwyn iddynt fod ar gael i’w derbyn gan aelodau o’r cyhoedd;

ystyr “**Parti ECTT**” yw gwladwriaeth sydd wedi llofnodi a chadarnhau'r Confensiwn Ewropeaidd ar Deledu Trawsffiniol;

ystyr “**amserlen rhaglenni electroni**g” ac “**EPG**” yw gwasanaeth sydd:

(a) yn Drwydded Channel 3 Rhanbarthol neu a gynhwysir yn y Drwydded hon; ac

(b) sy’n cynnwys:

  (i) rhestru neu hyrwyddo, neu restru a hyrwyddo, rhai o'r rhaglenni, neu'r holl raglenni sydd wedi'u cynnwys mewn unrhyw un neu fwy o wasanaethau rhaglen y mae’r darparwyr yn unigolion ar wahân i ddarparwr yr amserlen, neu’n cynnwys yr unigolion yma; a

  (ii) chyfleuster ar gyfer cael mynediad, yn gyfan gwbl neu’n rhannol, at wasanaeth neu wasanaethau’r rhaglen a restrir neu a hyrwyddir yn yr amserlen;

ystyr y **“Confensiwn Ewropeaidd ar Deledu Trawsffiniol”** yw Confensiwn Cyngor Ewrop ar Deledu Trawsffiniol a agorwyd i'w lofnodi yn Strasbourg ar 5 Mai 1989, fel y'i diwygiwyd gan y Protocol a agorwyd i'w lofnodi yn Strasbourg ar 1 Hydref 1998;

ystyr **“Cod Tegwch”** yw'r cod sy’n rhoi arweiniad ar egwyddorion y dylid cadw atynt ac arferion i’w dilyn mewn cysylltiad ag osgoi triniaeth anghyfiawn neu annheg, a tharfu’n ddiangen ar breifatrwydd wrth ddarparu gwasanaethau teledu a radio fel y cânt eu llunio gan Ofcom a’u diwygio o bryd i’w gilydd ganddynt, yn unol ag Adran 107 o Ddeddf 1996 a pharagraff 53 o Atodlen 18 i’r Ddeddf Cyfathrebiadau;

bydd **“Cwyn Tegwch”** yn cael ei dehongli yn unol ag Adran 110(4) o Ddeddf 1996;

ystyr **“Cronfa Teledu Gaeleg”** yw’r gronfa a sefydlwyd at ddibenion Adran 183 o Ddeddf 1990;

ystyr **“Cynyrchiadau Annibynnol”** yw rhaglenni o’r fath ddisgrifiad y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol, drwy orchymyn o bryd i'w gilydd yn eu pennu, yn unol ag Adran 277(2) o’r Ddeddf Cyfathrebiadau;

bydd **“Dyddiad Dod i Ben Cychwynnol”** yn cael ei ddehongli yn unol ag Adran 224 o’r Ddeddf Cyfathrebiadau;

ystyr **“Cyfnod Trwyddedu Cychwynnol”** yw’r cyfnod o’r Dyddiad Cychwyn hyd at y dyddiad dod i ben cychwynnol neu, os yw’n fyrrach, y cyfnod o’r Dyddiad Cychwyn hyd y cyfryw ddyddiad ag y caiff y Drwydded ei dirymu neu ei hadnewyddu yn unol â’r Amodau hyn;

Mae gan “**Rwymedigaeth Ryngwladol y Deyrnas Unedig**” yr ystyr a roddir iddi yn Adran 405 y Ddeddf Cyfathrebiadau;

bydd **“Cynulleidfa Fwriedig”** yn cael ei dehongli yn unol ag adrannau 272(7) a 273(7) o’r Ddeddf Cyfathrebiadau at ddiben dehongli Amodau 2(1A) i 2(1H) o’r drwydded hon;

ystyr “**Ardal Drwyddedig**” yw'r ardal ddaearyddol lle mae darllediad a wneir yn unol ag Amod 2(2)(a) o’r Drwydded hon ar gael i’w dderbyn gan aelodau o’r cyhoedd;

ystyr “**Cyfnod Trwyddedu**” yw’r Cyfnod Trwyddedu Cychwynnol neu unrhyw Gyfnod Trwyddedu Dilynol, fel y bydd y cyd-destun yn mynnu;

ystyr “**Digwyddiad a Restrir**” yw digwyddiad chwaraeon neu ddigwyddiad arall o ddiddordeb cenedlaethol sydd am y tro wedi’i gynnwys yn y rhestr a luniwyd ac a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol at ddibenion Rhan IV o Ddeddf 1996, ac mae “**digwyddiad Grŵp A**” yn ddigwyddiad rhestredig sydd am y tro yn cael ei ddyrannu i Grŵp A o’r rhestr honno a “**digwyddiad Grŵp B**” yn ddigwyddiad rhestredig sydd am y tro yn cael ei ddyrannu i Grŵp B o’r rhestr honno;

bydd “**ardal M25**” yn cael ei dehongli yn unol ag Adran 362 o’r Ddeddf Cyfathrebiadau;

ystyr “**Corff Archifau a Enwebir**” yw’r corff sy’n cael ei enwebu am y tro gan Ofcom at ddibenion Adran 185(2) o Ddeddf 1990;

ystyr “**Ofcom**” yw’r Swyddfa Gyfathrebiadau a sefydlwyd yn unol â Deddf Cyfathrebiadau 2002;

mae “**Oriau Gwylio Brig**” yn golygu 6pm tan 10.30pm bob dydd neu unrhyw amseroedd eraill y gall Ofcom benderfynu arnynt;

ystyr “**Swm Rhagnodedig**” yw:-

(a) lle:

(i) bydd y Drwydded yn cael ei dirymu o dan Adran 18 o Ddeddf 1990; neu

(ii) nad yw cyfnod cyfrifyddu cyflawn cyntaf y Trwyddedai sy’n dod o fewn y Cyfnod Trwyddedu wedi dod i ben eto,

saith y cant o’r swm y mae Ofcom yn amcangyfrif y byddai wedi bod yn refeniw cymwys y Trwyddedai ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu hwnnw; neu

(b) mewn unrhyw achos arall, saith y cant o refeniw cymwys y Trwyddedai am eu cyfnod cyfrifyddu cyflawn diwethaf fel y mae’n disgyn;

mae “**Rhaglen**” oni nodir yn wahanol yn cynnwys hysbyseb ac unrhyw beth sydd wedi’i gynnwys yn y Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol;

ystyr **“Rhaglenni Cymwys”** yw rhaglenni o’r fath ddisgrifiad y bydd yr Ysgrifennydd Gwladol, drwy orchymyn o bryd i'w gilydd yn eu pennu, yn unol ag Adran 277(2) o’r Ddeddf Cyfathrebiadau;

mae i “**Refeniw Cymwys**” yr un ystyr ag yn Adran 19 Deddf 1990 a rhaid ei wirio yn unol â’r Adran honno a Datganiad Egwyddorion Codi Tâl Ofcom a ddiwygir o bryd i’w gilydd gan Ofcom mewn ymgynghoriad â’r Ysgrifennydd Gwladol a’r Trysorlys, yn unol â Rhan I o Atodlen 7 iddi;

ystyr “**Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol** ” yw'r gwasanaeth darlledu teledu rhanbarthol sy’n cael ei ddarparu gyda’r bwriad o’i ddarlledu ar ffurf ddigidol yn yr Ardal Drwyddedig yn unol ag amodau’r Drwydded hon;

ystyr “**Dyddiad Perthnasol**,” yn unol ag Adran 216 (2) a (3) o’r Ddeddf Cyfathrebiadau, yw’r dyddiad hwyraf y mae Ofcom yn penderfynu y byddai angen iddo gyhoeddi hysbysiad tendro o dan Adran 15 o Ddeddf 1990 pe bai’n cynnig rhoi, o’r dyddiad y byddai’r Drwydded yn dod i ben pe na bai’n cael ei hadnewyddu, trwydded newydd i ddarparu’r Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol i ddod i rym ar ddiwedd y Cyfnod Trwyddedu;

ystyr “**Rhwymedigaethau Rhyngwladol Perthnasol**” yw rhwymedigaethau rhyngwladol y Deyrnas Unedig sy’n cael eu hysbysu i Ofcom gan yr Ysgrifennydd Gwladol at ddibenion sicrhau cydymffurfiaeth o dan Amod 29;

ystyr “**Canran Berthnasol o Refeniw Cymwys**” yw canran y Refeniw Cymwys sy’n daladwy gan y Trwyddedai dan Adran 19(1)(c) o Ddeddf 1990;

ystyr “**Taliad Adnewyddu**” yw unrhyw swm y mae Ofcom yn penderfynu sy’n daladwy iddo gan y Trwyddedai o dan Adran 217(1)(a) o’r Ddeddf Cyfathrebiadau mewn perthynas â’r flwyddyn galendr gyntaf sy’n dod o fewn y Cyfnod Adnewyddu;

ystyr "**Cyfnod Adnewyddu**" yw'r cyfnod y mae'r Drwydded mewn grym oherwydd ei hadnewyddu;

bydd **"Gwasanaeth Teledu Lloeren"** yn cael ei ddehongli yn unol ag adran 273(7) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau at ddiben dehongli Amodau 2(1A) i 2(1H) o'r drwydded hon;

ystyr y "**Cod Safonau**" yw'r cod neu'r codau sy'n rheoli safonau ar gyfer cynnwys rhaglenni, gan gynnwys safonau ac arferion wrth hysbysebu ac wrth noddi rhaglenni sydd wedi'u cynnwys mewn gwasanaethau teledu a radio, fel y cânt eu llunio ac o bryd i'w gilydd eu diwygio gan Ofcom, yn unol ag Adran 319, 322 ac unrhyw rwymedigaeth ryngwladol a bennir mewn cyfarwyddyd a roddir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 335 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau;

ystyr "**Cwyn Safonau**" yw cwyn am gadw at safonau a bennir o dan Adran 319, 322 a/neu 335 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau;

ystyr "**Cyfnod Trwyddedu Dilynol**" yw unrhyw gyfnod o ddeng mlynedd sy'n dechrau â dyddiad gorffen y Cyfnod Trwyddedu blaenorol;

ystyr "**Tabl o Orsafoedd Darlledu Daearol Digidol ar gyfer Trwyddedau Amlblecs**" yw'r tabl sy'n nodi manylion y gorsafoedd darlledu daearol digidol ar gyfer Amlblecs 2 fel y'u cyhoeddwyd yn Fersiwn 12 ar 23 Mai 2013 a'u diwygio o bryd i'w gilydd gan Ofcom, neu unrhyw dabl arall yn lle'r tabl hwn a gyhoeddir gan Ofcom;

ystyr "**Cod Perfformiad Technegol Teledu**" yw'r cod sy'n llywodraethu safonau ac arferion technegol o ran:

(a) cynhyrchu a chaffael rhaglenni;

(b) darlledu sydd ar gael i'w dderbyn gan aelodau o'r cyhoedd; a

(c) dosbarthu (fel y'i diffinnir yn adran 66(2) o Ddeddf 1990)

wrth ddarparu gwasanaethau Channel 3, Channel 4 a Channel 5 fel y cânt eu llunio ac o bryd i'w gilydd eu diwygio gan Ofcom;

ystyr "**is-ranbarth Cymru**" yw'r ardal o fewn yr Ardal Drwyddedig y mae'r Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol yn cael ei ddarlledu ar ei chyfer o'r gorsafoedd a'r gorsafoedd ategol a restrir o dan Flaenplwyf, Carmel, Kilvey Hill, Llanddona, Cefn Digoll, Moel-y-Parc, Preseli a Gwenfô yn Rhan 3 o'r Atodiad;

ystyr "**is-ranbarth y Gorllewin**" yw'r ardal yn yr Ardal Drwyddedig lle mae'r Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol yn cael ei ddarlledu ar ei chyfer o'r gorsafoedd a'r gorsafoedd ategol a restrir o dan Mendip yn Rhan 3 o'r Atodiad.

(2) Bydd Deddf Dehongli 1978 yn gymwys at ddiben dehongli'r Drwydded hon fel pe bai'n Ddeddf Seneddol.

(3) Rhaid i unrhyw air neu ymadrodd a ddefnyddir yn y Drwydded hon, oni bai ei fod yn cael ei ddiffinio fel arall yma a/neu fod y cyd-destun yn mynnu fel arall, gael yr un ystyr ag sydd iddo yn Neddf 1990, Deddf 1996 neu'r Ddeddf Cyfathrebiadau, yn ôl y digwydd.

(4) At ddibenion dehongli'r Drwydded hon, rhaid diystyru penawdau a theitlau.

(5) Mae'r cyfeiriadau statudol yn union cyn yr amodau yn y Drwydded hon at ddibenion hwylustod yn unig ac ni fyddant yn effeithio ar ddehongli neu lunio'r Drwydded nac yn cyfyngu ar y sail statudol dros gynnwys yr Amod perthnasol yn y Drwydded.

(6) Pan wneir gorchymyn o dan Ddeddf Dadreoleiddio a Chontractio Allan 1994 sy'n awdurdodi unigolyn i arfer unrhyw un o swyddogaethau Ofcom, bydd y cyfeiriadau perthnasol yn y Drwydded at Ofcom yn cynnwys cyfeiriad at yr unigolyn hwnnw.

(7) Bydd y Drwydded hon yn cael ei llywodraethu gan gyfraith Lloegr.

# RHAN 2: AMODAU CYFFREDINOL

## 2. Darparu Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol gan y Trwyddedai

### *Adran 214 y Ddeddf Cyfathrebiadau (gweler hefyd Adran 215(4) a pharagraff 47 o Atodlen 18 i'r Ddeddf Cyfathrebiadau)*

(1) Bydd y Trwyddedai yn cyflenwi'r Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol i ddeiliad trwydded amlblecs C3/C4 i'w ddarlledu.

### *Gorchymyn Cychwyn 2009*

(1A) Bydd y Trwyddedai yn sicrhau bod y Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol bob amser yn cael ei gynnig fel un sydd ar gael (yn amodol ar yr angen i gytuno ar delerau) i'w ddarlledu neu ei ddosbarthu drwy bob rhwydwaith priodol.

### *Adran 272 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003*

(1B) Bydd y Trwyddedai'n gwneud ei orau i sicrhau bod trefniadau'n cael eu gwneud a'u cadw mewn grym er mwyn sicrhau:

(a) bod y Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol yn cael ei ddarlledu neu ei ddosbarthu ar rwydweithiau priodol; a

(b) bod darlledu a dosbarthu'r Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol, yn unol â'r trefniadau hynny, yn golygu ei fod ar gael i'w dderbyn, drwy rwydweithiau priodol, gan gynifer o aelodau o'i gynulleidfa arfaethedig ag sy'n ymarferol.

(1C) Bydd y Trwyddedai'n sicrhau bod y trefniadau a wneir ac a gedwir mewn grym, yn unol ag amod (1B), uchod, yn gwahardd gosod, ar gyfer darparu rhwydwaith priodol neu mewn cysylltiad â hyn, unrhyw dâl y gellir ei briodoli (boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) i drosglwyddo hawl i dderbyn y Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol, ar ffurf ddealladwy drwy gyfrwng y rhwydwaith hwnnw.

(1D) Bydd amodau (1A), (1B) ac (1C), uchod ond yn gymwys mewn perthynas â'r adegau y bydd y Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol yn ei ffurf ddigidol yn cael ei gynnwys ar y rhestr o wasanaethau gorfodol yn adran 64 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau.

(1E) Bydd y Trwyddedai yn sicrhau bod y Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol bob amser yn cael ei gynnig fel un sydd ar gael (yn amodol ar yr angen i gytuno ar delerau) i'w ddarlledu drwy gyfrwng pob gwasanaeth teledu lloeren sydd ar gael i'w dderbyn gan aelodau o'r cyhoedd yn y Deyrnas Unedig i gyd, neu ran ohoni.

(1F) Bydd y Trwyddedai'n gwneud eu gorau i ddiogelu bod trefniadau'n cael eu gwneud a'u cadw mewn grym er mwyn sicrhau:

(a) bod y Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol yn cael ei ddarlledu drwy gyfrwng gwasanaethau teledu lloeren sy'n cael eu darlledu er mwyn iddynt fod ar gael i'w derbyn gan aelodau o'r cyhoedd yn y Deyrnas Unedig; a

(b) bod darlledu'r Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol, yn unol â'r trefniadau hynny drwy ddulliau'r gwasanaethau teledu lloeren hynny, yn golygu ei fod ar gael i'w dderbyn mewn ffurf ddealladwy a thrwy'r gwasanaethau hynny, gan gynifer o aelodau o'i gynulleidfa arfaethedig ag sy'n ymarferol.

(1G) Bydd y Trwyddedai'n sicrhau bod y trefniadau a wneir ac a gedwir mewn grym, yn unol ag amod (1F), uchod, yn gwahardd gosod, ar gyfer darparu gwasanaeth teledu lloeren neu mewn cysylltiad â hyn, unrhyw dâl y gellir ei briodoli (boed yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) i drosglwyddo hawl i dderbyn y Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol, ar ffurf ddealladwy drwy gyfrwng y gwasanaeth hwnnw.

(1H) Bydd amodau (1E), (1F) ac (1G), uchod ond yn gymwys mewn perthynas â'r adeg y bydd y Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol yn cael ei gynnwys ar y rhestr o wasanaethau sy'n gorfod darparu at ddibenion adran 274 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau.

(2) Bydd y Trwyddedai yn darparu'r Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol ar gyfer y Cyfnod Trwyddedu ac yn yr Ardal Drwyddedig a bydd yn sicrhau:

(a) (a) bod y Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol yn cael ei ddarlledu o'r gorsafoedd a'r gorsafoedd ategol a nodir yn Rhan 3 o'r Atodiad, ac fel arall yn unol â'r holl ofynion a nodir ar gyfer y gorsafoedd a'r gorsafoedd ategol hynny yn y Tabl o Orsafoedd Darlledu Daearol Digidol ar gyfer Trwyddedau Amlblecs;

(b) bod y rhaglenni sydd i'w cynnwys yn y Gwasanaeth ChanneL 3 Rhanbarthol yn cael eu darlledu yn yr Ardal Drwyddedig ar y diwrnodau ac nid y tu allan i'r oriau a nodir yn Rhan 2 yr Atodiad.

(3) Ni fydd unrhyw beth yn y Drwydded hon yn golygu nac yn awgrymu unrhyw warant, cynrychiolaeth neu rwymedigaeth ar ran Ofcom o ran maint neu leoliad yr ardaloedd sydd mewn gwirionedd yn gallu derbyn y rhaglenni a ddarperir gan y Trwyddedai yn unol â'r Drwydded, neu na fydd gwasanaethau rhaglen a ddarperir gan ddeiliad unrhyw drwydded arall (gan gynnwys trwydded Channel 3) yn gallu cael derbyniad yn yr Ardal Drwyddedig gyfan neu ran ohoni.

(4) Ni fydd y Trwyddedai yn cael ei awdurdodi gan y Drwydded, nac o dan y Drwydded, i ddarlledu neu sicrhau darllediad unrhyw beth ar wahân i'r Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol, isdeitlo yn unol ag Amod 20, a gwasanaethau (ac eithrio isdeitlo) sy'n ategol i raglenni sydd wedi'u cynnwys yn y Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol ac sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'u cynnwys neu sy'n ymwneud â hyrwyddo neu restru rhaglenni o'r fath.

### *Adran 4(1) o Ddeddf Darlledu 1990, Erthygl 6 o’r Confensiwn Ewropeaidd ar Deledu Trawsffiniol*

*ac Erthygl 5 o Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol*

(5) Wrth ddarparu’r Gwasanaeth Trwyddedig, bydd y Trwyddedai’n cyhoeddi neu’n darparu’r wybodaeth ganlynol i’r sawl sy’n derbyn y gwasanaeth, ar gais:

(a) enw'r Trwyddedai;

(b) cyfeiriad y Trwyddedai;

(c) cyfeiriad electronig y Trwyddedai;

(d) cadarnhad bod y gwasanaeth yn dod o dan awdurdodaeth y DU;

(e) enw, cyfeiriad a chyfeiriad electronig Ofcom yn ogystal ag enw, cyfeiriad a chyfeiriad electronig unrhyw gyd-reoleiddiwr priodol Ofcom at unrhyw ddiben mewn perthynas â’r Trwyddedai neu’r Gwasanaeth Trwyddedig, fel sy’n briodol;

(f) Dim ond os yw’r Gwasanaeth Trwyddedig yn wasanaeth rhaglen sy’n dderbyniadwy mewn Parti ECTT ac eithrio’r Deyrnas Unedig:

(i) cyfansoddiad cyfalaf y Trwyddedai; a

(ii) natur, pwrpas a dull ariannu gwasanaeth y rhaglen y mae’r darlledwr yn ei ddarparu neu’n bwriadu ei ddarparu.

## 3. Gwahardd Gosod Taliadau

### *Adrannau 214(8) a (9) o’r Ddeddf Cyfathrebiadau*
### *[DS bydd mynd yn groes i’r Amod hwn hefyd yn anghyfreithlon yn rhinwedd Adran 214(9)]*

(1) Ni fydd y Trwyddedai’n gosod unrhyw daliadau, boed yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol, ar unigolion mewn perthynas â’u derbyniad yn y Deyrnas Unedig o’r:

(a) Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol;

(b) unrhyw wasanaeth sy’n cynnwys darparu cymorth i bobl anabl mewn perthynas â rhaglenni sydd wedi’u cynnwys yn y Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol;

(c) unrhyw wasanaeth (ac eithrio un a grybwyllir yn Amod 3(1)(b) uchod) sy'n wasanaeth ategol (fel y'i diffinnir yn Adran 24(2) o Ddeddf 1996) mewn perthynas â’r Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol.

## 4. Ffioedd

### *Adran 4(1)(b), (3) a (4) o Ddeddf 1990*

(1) Bydd y Trwyddedai yn talu i Ofcom unrhyw ffioedd y gall Ofcom eu pennu yn unol â’r tariff a bennir ganddo ac sydd mewn grym am y tro o dan Adran 4(3) o Ddeddf 1990, y bydd y manylion, ac unrhyw ddiwygiad ohonynt, yn cael eu cyhoeddi o bryd i’w gilydd gan Ofcom mewn unrhyw fodd sy’n briodol yn ei farn ef.

(2) Bydd y ffioedd y cyfeirir atynt yn Amod 4(1) yn cael eu talu yn y fath fodd ac ar y cyfryw adegau ag y pennir gan Ofcom.

### *Adran 4(1)(c) o Ddeddf 1990*

(3) O fewn 28 diwrnod i gais, rhaid i’r Trwyddedai felly ddarparu’r cyfryw wybodaeth i Ofcom ag y gall fod ei hangen arno at ddibenion pennu neu ddiwygio’r tariff y cyfeirir ato yn Amod 4(1) uchod.

## 5. Taliadau Ychwanegol a Chyfraniadau i’r Archif Teledu Genedlaethol

### *Adran 19 o Ddeddf 1990*

(1) Bydd y Trwyddedai yn talu i Ofcom:-

(a) mewn perthynas â'r flwyddyn galendr gyflawn gyntaf sy'n dod o fewn y Cyfnod Trwyddedu, swm y Bid Ariannol, a fydd yn daladwy drwy randaliadau cyfartal ar ddiwrnod busnes olaf ond un pob mis calendr drwy gydol y flwyddyn galendr honno, oni bai bod swm y Bid Ariannol yn hafal i neu'n llai na £100,000, ac os felly bydd yn daladwy'n llawn ar ddiwrnod busnes olaf ond un mis cyntaf y flwyddyn galendr honno; ac

(b) mewn perthynas â phob blwyddyn ddilynol sy’n gyfan gwbl neu’n rhannol yn y Cyfnod Trwyddedu, swm y Bid Ariannol fel y’i cynyddwyd gan y Ganran Briodol, a fydd yn daladwy drwy randaliadau cyfartal ar ddiwrnod busnes olaf ond un pob mis calendr drwy gydol y flwyddyn berthnasol neu ran ohoni, oni bai fod swm y Cais Ariannol fel y’i cynyddwyd gan y Ganran Briodol yn hafal i neu’n llai na £100,000. Os felly, bydd yn daladwy’n llawn ar ddiwrnod busnes olaf ond un ym mis cyntaf y flwyddyn berthnasol neu ran ohoni.

(2) Bydd y Trwyddedai yn talu i Ofcom, mewn perthynas â phob cyfnod cyfrifyddu ar gyfer y Trwyddedai sy’n dod o fewn y Cyfnod Trwyddedu, swm sy’n cynrychioli’r Ganran Berthnasol o Refeniw Cymwys.

(3) Gall Ofcom:-

(a) cyn dechrau unrhyw gyfnod cyfrifyddu sydd gan y Trwyddedai, amcangyfrif y swm sy’n cynrychioli’r Ganran Berthnasol o Refeniw Cymwys ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu hwnnw (a bydd y Trwyddedai’n talu’r swm hwnnw o’r fath wedi’i amcangyfrif (y “Swm wedi’i Amcangyfrif”) drwy randaliadau ar ddiwrnod busnes olaf ond un pob mis calendr drwy gydol y cyfnod cyfrifyddu hwnnw);

(b) ar unrhyw adegau sy’n briodol yn ei farn ef, i ddiwygio'r Swm wedi’i Amcangyfrif ac addasu’r rhandaliadau sy’n daladwy gan y Trwyddedai i ystyried unrhyw ddiwygiad o’r fath; a

(c) phenderfynu y bydd y rhan o daliadau ychwanegol y Trwyddedai a gyfrifir gan ddefnyddio’r Ganran Berthnasol o Refeniw Cymwys ac sy’n daladwy bob mis, yn seiliedig ar wir refeniw cymwys y mis blaenorol.

(4)

(a) Bydd y Trwyddedai yn talu ffigwr i Ofcom sy’n hafal i’r swm (os o gwbl) y mae swm y Ganran Berthnasol o Refeniw Cymwys, mewn perthynas ag unrhyw gyfnod cyfrifyddu ar gyfer y Trwyddedai, yn fwy na’r Swm wedi’i Amcangyfrif a dalwyd mewn gwirionedd gan y Trwyddedai i Ofcom mewn perthynas â’r cyfnod hwnnw; a

(b) Bydd Ofcom yn talu neu’n caffael taliad i’r Trwyddedai ffigwr sy’n hafal i’r swm (os o gwbl) y mae swm y Canran Perthnasol o Refeniw Cymwys mewn perthynas ag unrhyw gyfnod cyfrifyddu’r Trwyddedai yn llai na’r Swm wedi’i Amcangyfrif a dalwyd mewn gwirionedd gan y Trwyddedai i Ofcom mewn perthynas â’r cyfnod hwnnw,

a bydd y swm sy’n daladwy gan y Trwyddedai yn cael ei dalu o fewn 14 diwrnod i’r dyddiad y bydd Ofcom yn hysbysu’r Trwyddedai o swm y Ganran Berthnasol o Refeniw Cymwys mewn perthynas â chyfnod cyfrifyddu o’r fath.

## *Adran 185 o Ddeddf 1990*

(5) Bydd y Trwyddedai yn talu i Ofcom ar y Dyddiad Cychwyn ac ar y dyddiad hwnnw bob blwyddyn wedi hynny drwy gydol y Cyfnod Trwyddedu, neu ar unrhyw ddyddiad arall ym mhob blwyddyn o’r Cyfnod Trwyddedu y gall Ofcom bennu’r cyfryw swm ag y bydd Ofcom yn ei hysbysu i’r Trwyddedai, sef cyfraniad y Trwyddedai tuag at dreuliau’r Corff Archifau a Enwebir mewn cysylltiad â chynnal a chadw archif teledu genedlaethol ganddo.

(6) Bydd taliadau o dan Amod 5 yn cael eu gwneud yn y fath fodd ag y pennir gan Ofcom o bryd i’w gilydd.

## 6. T.A.W.

### *Adran 4(1)(b) a (d) o Ddeddf 1990*

(1) Bydd y Trwyddedai yn talu unrhyw T.A.W. ar unrhyw gyflenwad at ddibenion T.A.W. gan Ofcom dan y Drwydded hon pan gyflwynir anfoneb TAW ddilys.

(2) Heb gyfyngiad i Amod 6(1) uchod, nid yw'r holl symiau sy'n daladwy gan y Trwyddedai yn cynnwys T.A.W., a delir gan y Trwyddedai yn ychwanegol at symiau o'r fath.

(3) Yn yr Amod 6 hwn mae "**T.A.W.**" yn golygu treth ar werth sydd i'w chodi o dan neu yn unol â Deddf Treth ar Werth 1994, gan gynnwys unrhyw ddiwygiad i'r Ddeddf honno neu ddisodliad ohoni, a/neu unrhyw dreth debyg.

## 7. Cylch Gwaith Gwasanaeth Cyhoeddus a Pholisi Rhaglen

### *Adran 265(1) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau*

(1) Bydd y Trwyddedai yn sicrhau ei fod yn cyflawni'r cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus, wrth ddarparu Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol, i ddarparu amrywiaeth o raglenni amrywiol ac o ansawdd uchel (neu gylch gwaith o'r fath a all gael ei addasu o bryd i'w gilydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol ag Adran 271(1) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau).

### *Adran 266 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau*

(2) Bydd y Trwyddedai'n paratoi datganiad o bolisi rhaglenni (yn unol â gofynion Amod 7(4) isod) cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl dechrau Adran 266 ac wedi hynny bob blwyddyn:

- (a) yn nodi eu cynigion ar gyfer sicrhau, yn ystod y flwyddyn ganlynol,
  - (i) y bydd cylch gwaith gwasanaeth cyhoeddus Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol yn cael ei gyflawni; a
  - (ii) bydd y dyletswyddau a osodir arnynt o dan Amodau 8 i 13 ac Amodau 15 ac 16 isod ac yn rhinwedd Adrannau 277 i 294 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau (fel sy'n berthnasol i Wasanaeth Rhanbarthol Channel 3) yn cael eu cyflawni; a
- (b) chynnwys adroddiad ar eu perfformiad wrth gyflawni, yn ystod y cyfnod ers y datganiad blaenorol, y cynigion sydd yn y datganiad hwnnw.

(3) Bydd y Trwyddedai'n monitro ei berfformiad ei hun wrth gyflawni'r cynigion a gynhwysir yn y datganiadau a wnaed yn unol ag Amod 7(2) uchod.

(4) Rhaid i bob datganiad o bolisi rhaglenni fod:

(A) wedi'i baratoi gan ystyried canllawiau fel y cânt eu llunio ac o bryd i'w gilydd eu hadolygu gan Ofcom yn unol ag Adran 266(5) a (6) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau;

(b) wedi'i baratoi gan ystyried yr adroddiadau a gyhoeddwyd yn flaenorol gan Ofcom o dan Adrannau 264 a 358 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau ac yn benodol yn rhoi sylw arbennig i'r adroddiadau diweddaraf o'r fath;

(c) wedi'i gyhoeddi gan y Trwyddedai cyn gynted ag sy'n ymarferol ar ôl gorffen ei baratoi; ac

(d) wedi'i gyhoeddi yn y modd sy'n briodol ym marn y Trwyddedai gan roi sylw i'r canllawiau y cyfeirir atynt yn Amod 7(4)(a) uchod.

### *Adran 267 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau*

(5) Os yw datganiad polisi rhaglenni'r Trwyddedai yn cynnwys cynigion ar gyfer newid sylweddol (y penderfynir arno yn unol ag adrannau 267 (4) a (5) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau gan gynnwys unrhyw ganllawiau a gyhoeddir ac a ddiwygir o bryd i'w gilydd gan Ofcom), bydd y Trwyddedai yn:

(a) ymgynghori ag Ofcom cyn paratoi'r datganiad; ac

(b) yn ystyried, wrth baratoi'r datganiad, unrhyw farn a fynegir iddynt gan Ofcom.

(6) Os yw'n ymddangos i Ofcom fod datganiad polisi rhaglenni wedi cael ei baratoi gan y Trwyddedai yn groes i Amod 7(5) uchod, bydd y Trwyddedai, yn unol ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddir iddo gan Ofcom:

(a) yn diwygio datganiad o'r fath; ac

(b) yn cyhoeddi diwygiad o ddatganiad o'r fath ar ôl iddo gael ei gymeradwyo gan Ofcom.

### *Adran 266(7) ac (8) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau*

(7) Heb amharu ar y gofyniad yn Amod 7(2) uchod o ran yr amser y mae'n ofynnol i'r Trwyddedai wneud y datganiad cyntaf o bolisi rhaglenni, bydd datganiad polisi'r Trwyddedai sydd mewn grym ar ddyddiad cychwyn Adran 266 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau yn cael ei drin fel pe bai'n ddatganiad am y tro mewn grym hyd nes y bydd y datganiad sy'n ofynnol dan Amod 7(2) wedi'i baratoi a'i gyhoeddi yn unol â gofynion yr Amod 7 hwn.

## 8. Trefniadau Rhwydweithio

### *Adran 291(1) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau*

(1) Bydd y Trwyddedai yn gwneud popeth o fewn ei allu i sicrhau bod trefniadau rhwydweithio cymeradwy ar waith pryd bynnag:

(a) bydd y Trwyddedai'n darparu'r Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol; ac

(b) nid oes unrhyw drefniadau rhwydweithio a osodir gan Ofcom o dan Adran 292 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau mewn grym.

### *Adran 292 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau*

(2) Os:

(a) nad oes trefniadau rhwydweithio addas yn bodoli erbyn y dyddiad y bydd Ofcom yn penderfynu, yn unol ag Adran 292 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau, ei bod yn rhaid bod trefniadau o'r fath wedi cael eu gwneud (y "**dyddiad rhwydweithio**"); neu

(b) bydd unrhyw drefniadau o'r fath sy'n bodoli ar y dyddiad rhwydweithio yn peidio â bod yn berthnasol i holl ddarparwyr Channel 3 rhanbarthol ar y dyddiad hwnnw neu ar ôl hynny,

bydd y Trwyddedai yn cydymffurfio â darpariaethau unrhyw drefniadau rhwydweithio a osodir gan Ofcom o dan yr Adran honno ac yn unol â pharagraffau 6, 7 ac 8 o Atodlen 11 i'r Ddeddf Cyfathrebiadau.

(3) Lle:

(a) bydd trefniadau rhwydweithio yn cael eu gosod yn unol ag Amod 8(2); a

(b) bod y rheini sy'n dal trwyddedau Channel 3 rhanbarthol sy'n rhwym wrth y trefniadau a bennwyd yn ymrwymo i drefniadau rhwydweithio eraill; a

(c) bod y trefniadau eraill a wneir yn cael eu cymeradwyo gan Ofcom ar ôl ystyried y materion a nodir ym mharagraffau 6, 7 ac 8 o Atodlen 11 i'r Ddeddf Cyfathrebiadau,

bydd y trefniadau y cyfeirir atynt yn Amod 8(2) yn peidio â chael effaith pan ddaw'r trefniadau y cyfeirir atynt ym mharagraff (b) uchod i rym fel trefniadau rhwydweithio cymeradwy.

### *Paragraff 2 o Atodlen 11 i'r Ddeddf Cyfathrebiadau*

(4) Pan fydd Ofcom wedi cymeradwyo unrhyw drefniadau rhwydweithio o dan Amod 8(1) neu 7(2), ni fydd y Trwyddedai'n cytuno ar unrhyw addasiad i'r trefniadau hynny gan ddeiliaid trwyddedau i ddarparu gwasanaethau Channel 3 rhanbarthol oni bai fod Ofcom wedi cymeradwyo addasiad o'r fath yn unol ag Atodlen 11 y Ddeddf Cyfathrebiadau.

### *Adran 293(7) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau*

(5) Bydd y Trwyddedai yn gwneud popeth o fewn ei allu i sicrhau ei fod yn gweithredu unrhyw addasiadau a gynigir gan Ofcom (ar ôl i Ofcom ystyried y materion a nodir ym mharagraffau 6, 7 ac 8 o Atodlen 11 i'r Ddeddf Cyfathrebiadau) i'r trefniadau rhwydweithio sydd mewn grym (pa un a gymeradwyir neu a osodir gan Ofcom) yn dilyn unrhyw adolygiad cyffredinol y mae Ofcom yn ei gynnal yn unol ag Adran 293 y Ddeddf Cyfathrebiadau.

(6) At ddibenion yr Amod 8 hwn, mae i "**drefniadau rhwydweithio cymeradwy**" yr ystyr a roddir iddo yn Adran 291(2) y Ddeddf Cyfathrebiadau.

### *Adran 294(2) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau*

(7) Mae rhwymedigaethau'r Trwyddedai o dan baragraffau (1), (2) a (5) o'r Amod 8 hwn yn ddarostyngedig i hawliau apelio'r Trwyddedai a roddir gan baragraffau 9 ac 11 o Atodlen 11 i'r Ddeddf Cyfathrebiadau.

### *Adrannau 291(1) a 292(7) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau*

(8) Bydd y Trwyddedai bob amser yn ystod y Cyfnod Trwyddedu yn gwneud popeth o fewn ei allu i roi'r trefniadau rhwydweithio y cyfeirir atynt yn Amod 8 ar waith.

### *Adran 290 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau*

(9) Bydd y Trwyddedai yn gwneud popeth o fewn ei allu i sicrhau, ac eithrio i'r graddau y bydd Ofcom yn penderfynu fel arall, bod y trefniadau rhwydweithio y cyfeirir atynt yn Amod 8(1) uchod yn cydymffurfio â'r cynigion a gyflwynir ganddo i Ofcom a'r canllawiau cyffredinol a gyhoeddir gan Ofcom yn unol ag Adran 290(2) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau.

### *Adran 4(1)(d) o Ddeddf 1990*

(10) Bydd y Trwyddedai yn cyfrannu at gyllideb rhaglen y rhwydwaith. Yn amodol ar ofynion y Ddeddf Cyfathrebiadau, bydd ei gyfraniad yn cael ei bennu drwy gyfeirio at gyfran y Trwyddedai o refeniw cymwys ar y sail y cytunir arni rhwng holl ddeiliaid trwyddedau Channel 3 rhanbarthol, a bydd yn swm sy'n ddigonol, pan gaiff ei gyfuno â chyfraniadau holl ddeiliaid trwyddedau Channel 3 rhanbarthol o'r fath, i gynnal ansawdd y gwasanaeth rhwydwaith.

## 9. Gwneud Rhaglenni Rhanbarthol

### *Adran 286(1) a (6) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau*

(1) Bydd y Trwyddedai yn cynnwys rhaglenni Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol a wneir yn y Deyrnas Unedig y tu allan i ardal yr M25:

(a) yn y cyfrannau a bennir ym mharagraff 6 o Ran 1 o'r Atodiad; ac

(b) sydd, gyda'i gilydd, yn cynnwys amrywiaeth o raglenni fel a bennir ym mharagraff 6 o Ran 1 o'r Atodiad.

(2) Bydd y Trwyddedai yn sicrhau bod cyfran y gwariant a bennir yn Rhan 1 yr Atodiad (a bennir drwy gyfeirio at wariant deiliaid trwyddedau Channel 3 ar raglenni Channel 3 a wneir yn y Deyrnas Unedig) yn cyfeirio at gynhyrchu rhaglenni yn yr hyn sy'n ymddangos i Ofcom yn ystod addas o ganolfannau cynhyrchu gwahanol y tu allan i ardal yr M25.

(3) Wrth gydymffurfio â'r Amod 9 hwn, rhaid i'r Trwyddedai ystyried unrhyw arweiniad y gall Ofcom ei gyhoeddi.

(4) Yn yr Amod 9 hwn, nid yw "**rhaglen**" yn cynnwys hysbyseb, ac mae "**gwariant**", mewn perthynas â rhaglen, a "**rhaglenni Channel 3**" â'r un ystyr a roddir iddynt yn Adran 286(7) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau.

## 10. Rhaglenni Rhanbarthol

### *Adran 287 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau*

(1) Yn amodol ar Amod 10(3) isod, bydd y Trwyddedai'n sicrhau, mewn perthynas â rhaglenni sydd wedi'u cynnwys yn y Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol, bod:

(a) swm yr amser a nodir yn Rhan 1 o'r Atodiad yn cael ei roi i raglenni a bennir (gan gynnwys rhaglenni newyddion rhanbarthol) sydd o ddiddordeb arbennig i unigolion sy'n byw yn yr ardal y darperir y gwasanaeth ar ei chyfer;

(b) y rhaglenni rhanbarthol sydd wedi'u cynnwys yn y Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol o ansawdd uchel;

(c) y gyfran a bennir yn Rhan 1 o'r Atodiad i'r rhaglenni rhanbarthol sydd wedi'u cynnwys yn y Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol yn cynnwys rhaglenni a wneir yn yr ardal honno;

(d) y rhaglenni newyddion rhanbarthol sydd wedi'u cynnwys yn y Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol yn cael eu darlledu i'w gwylio'n achlysurol drwy gydol y cyfnod y mae Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol yn cael ei ddarparu ar ei gyfer ac, yn benodol, yn ystod yr Oriau Gwylio Brig;

(e) y gyfran a bennir yn Rhan 1 o'r Atodiad i'r rhaglenni rhanbarthol eraill sydd wedi'u cynnwys yn y Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol yn cynnwys rhaglenni sy'n cael eu darlledu i'w gwylio yn ystod yr Oriau Gwylio Brig ac ar adegau sy'n union cyn neu ar ôl yr amseroedd hynny.

(2) Pan fo penderfyniad wedi'i wneud mewn perthynas â'r Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol yn unol ag Adran 14(3) o Ddeddf 1990, bydd y Trwyddedai'n sicrhau, mewn perthynas â rhaglenni sydd wedi'u cynnwys yn y Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol bod:

(a) faint o amser a nodir yn Rhan 1 o'r Atodiad yn cael ei roi i raglenni lleol fel a bennir;

(b) yn achos pob rhan o ardal neu bob cymuned y darperir Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol ar ei chyfer, bod yr ystod o raglenni lleol yn ystod o raglenni (gan gynnwys rhaglenni newyddion) sydd o ddiddordeb arbennig i unigolion sy'n byw o fewn y rhan honno o'r ardal honno neu yn y gymuned honno;

(c) y rhaglenni lleol sydd wedi'u cynnwys yn y Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol o ansawdd uchel;

(d) cyfran addas, fel y nodir yn Rhan 1 yr Atodiad, o'r rhaglenni lleol sydd wedi'u cynnwys yn y Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol yn cynnwys rhaglenni a wneir yn yr ardal lle darperir y Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol ar ei chyfer;

(e) y rhaglenni newyddion lleol sydd wedi'u cynnwys yn y Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol yn cael eu darlledu i'w gwylio'n achlysurol drwy gydol y cyfnod y mae Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol yn cael ei ddarparu ar ei gyfer ac, yn benodol, yn ystod yr Oriau Gwylio Brig;

(f) y gyfran a bennir yn Rhan 1 o'r Atodiad i'r rhaglenni lleol eraill sydd wedi'u cynnwys yn y Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol yn cynnwys rhaglenni sy'n cael eu darlledu i'w gwylio yn ystod yr Oriau Gwylio Brig ac ar adegau sy'n union cyn neu ar ôl yr amseroedd hynny.

(3) Pan fydd Amod 10(2) uchod yn berthnasol, dim ond i'r graddau y mae'n ymddangos i Ofcom nad yw gofynion yr Amod hwnnw'n cael eu bodloni'n ddigonol gan Amod 10(2) y bydd Amod 10(1) yn berthnasol.

(4) Wrth gydymffurfio â'r Amod 10 hwn, rhaid i'r Trwyddedai ystyried unrhyw arweiniad y gall Ofcom ei gyhoeddi.

(5) Yn yr Amod 10 hwn, nid yw "**rhaglen**" yn cynnwys hysbyseb, ac mae gan "**raglen leol**", a "**rhaglen ranbarthol**" yr un ystyr a roddir iddynt yn Adran 287(8) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau.

## 11. Comisiynu Cynyrchiadau Annibynnol

### *Adran 285 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau*

(1) Bydd y Trwyddedai yn llunio ac yn diwygio cod ymarfer o bryd i'w gilydd sy'n nodi'r egwyddorion y byddant yn eu dilyn wrth gytuno ar delerau ar gyfer comisiynu cynyrchiadau annibynnol, cod o'r fath yn benodol i sicrhau yn y ffordd a ddisgrifir yn y canllawiau a gyhoeddir gan Ofcom:

(a) bod amserlen resymol yn cael ei rhoi i drafodaethau ar gyfer comisiynu cynhyrchiad annibynnol ac ar gyfer dod â chytundeb rhwymol i ben;

(b) ei bod yn ymddangos i Ofcom bod digon o eglurder, pan gomisiynir cynhyrchiad annibynnol, ynghylch y gwahanol gategorïau o hawliau i ddarlledu neu fel arall i ddefnyddio neu fanteisio ar y cynhyrchiad a gomisiynir, sy'n cael eu gwaredu;

(c) ei bod yn ymddangos i Ofcom fod digon o dryloywder ynghylch y symiau sydd i'w talu mewn perthynas â phob categori o hawliau;

(d) yr hyn sy'n ymddangos i Ofcom yn drefniadau boddhaol ynghylch hyd a natur unigryw'r hawliau hynny;

(e) bod gweithdrefnau'n bodoli ar gyfer adolygu'r trefniadau a fabwysiadwyd yn unol â'r cod ac ar gyfer dangos cydymffurfiad ag ef, gweithdrefnau o'r fath i gynnwys gofynion ar gyfer monitro'r defnydd o'r cod ac ar gyfer gwneud adroddiadau i Ofcom;

(f) gwneir darpariaeth ar gyfer datrys anghydfodau sy'n codi mewn perthynas â darpariaethau'r cod (drwy gymrodeddu annibynnol neu fel arall) mewn ffordd sy'n ymddangos i Ofcom yn briodol.

(2) Bydd y Trwyddedai yn sicrhau bod llunio neu ddiwygio cod a wneir yn unol ag Amod 11(1) uchod yn unol â chanllawiau a gyhoeddir gan Ofcom ynghylch:

(a) yr adegau y bydd yn cael ei baratoi neu ei adolygu gyda'r bwriad o ddiwygio;

(b) yr ymgynghori sydd i'w gynnal cyn iddo gael ei lunio neu ei ddiwygio; a'i

(c) gyhoeddi a chyhoeddi unrhyw ddiwygiad neu ddisodliad ohono,

a chyflwynir unrhyw god o'r fath ac unrhyw ddiwygiad iddo i Ofcom i'w gymeradwyo a bydd yn cael effaith yn amodol ar y gymeradwyaeth honno ac unrhyw addasiadau y bydd Ofcom yn gofyn amdanynt.

(3) Bydd y Trwyddedai o bryd i'w gilydd yn gwneud unrhyw ddiwygiadau sy'n angenrheidiol i ystyried diwygiadau i'r canllawiau a gyhoeddir gan Ofcom y cyfeirir atynt yn Amod 11(2) uchod.

(4) Bydd y Trwyddedai'n sicrhau eu bod yn cydymffurfio bob amser ag unrhyw god a lunnir ac sydd mewn grym am y tro yn unol â'r Amod 11 hwn.

## 12. Darlledu Cynyrchiadau Annibynnol

### *Adran 277 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau*

(1) Bydd y Trwyddedai yn sicrhau, ym mhob blwyddyn galendr o'r Cyfnod Trwyddedu, bydd dim llai na'r ganran a nodir yn Rhan 1 o'r Atodiad (neu ganran arall o'r fath y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol ei rhoi drwy orchymyn o bryd i'w gilydd yn unol ag Adran 277(3) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau) o gyfanswm yr amser a ddyrennir i ddarlledu rhaglenni cymwys yn y Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol, yn cael ei dyrannu i ddarlledu ystod ac amrywiaeth o Gynyrchiadau Annibynnol.

(2) At ddibenion Amod 12(1) uchod, mae'r cyfeiriad at ystod o Gynyrchiadau Annibynnol yn gyfeiriad at ystod o gynyrchiadau o'r fath o ran cost caffael a'r mathau o raglenni dan sylw.

(3) Bydd y Trwyddedai yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion pellach y gall Ofcom eu gosod o bryd i'w gilydd yn unol ag Adran 277(4) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau, mewn perthynas â chanran y gyllideb rhaglenni a ddefnyddir wrth gaffael (sy'n cynnwys comisiynu a chaffael hawl i gynnwys rhaglen yn y Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol neu i gael ei darlledu) Cynyrchiadau Annibynnol (a benderfynir yn unol â gorchymyn a wneir o dan Adran 277(9) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau).

(4) Bydd y Trwyddedai yn cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd gan Ofcom er mwyn cario drosodd unrhyw ddiffyg mewn un neu fwy o flynyddoedd dilynol, am unrhyw flwyddyn o ran eu cydymffurfiad â gofynion Amod 12(1) a (3) uchod a thrwy hynny gynyddu'r ganran sy'n gymwys at ddibenion yr Amodau hynny i'r flwyddyn neu'r blynyddoedd dilynol.

(5) Wrth gydymffurfio â'r Amod 12 hwn, rhaid i'r Trwyddedai ystyried unrhyw ganllawiau y gall Ofcom eu cyhoeddi.

(6) Yn yr Amod 12 hwn, nid yw "**rhaglen**" yn cynnwys hysbyseb.

## 13. Cynyrchiadau Gwreiddiol

### *Adran 278 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau*

(1) Bydd y Trwyddedai yn sicrhau ym mhob blwyddyn galendr o'r Cyfnod Trwyddedu:

(a) bydd dim llai na'r ganran a bennir yn Rhan 1 o'r Atodiad yn ôl amser y rhaglenni sydd wedi'u cynnwys yn y Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol yn gynyrchiadau gwreiddiol neu'n gomisiynau ar gyfer unrhyw un o'r Gwasanaethau Channel 3 Rhanbarthol, neu bob un ohonynt; a

(b) bod yr amser sy'n cael ei neilltuo ar gyfer darlledu cynyrchiadau gwreiddiol yn cael ei rannu rhwng yr Oriau Gwylio Brig ac adegau eraill yn y ffordd a nodir yn Rhan 1 o'r Atodiad.

(2) Wrth benderfynu ar y rhaglenni y mae cyfran ohonynt i fod yn rhaglenni gwreiddiol, gellir eithrio'r disgrifiadau hynny o raglenni fel y nodir mewn canllawiau a baratowyd, ac o bryd i'w gilydd, a ddiwygir gan Ofcom yn unol ag Adran 278(3) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau.

(3) At ddibenion yr Amod 13 hwn, nid yw "rhaglen" yn cynnwys hysbyseb; a bydd "cynyrchiadau gwreiddiol" yn cael eu penderfynu yn unol â gorchymyn a wneir o dan Adran 278(6) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau.

## 14. Safonau a Gofynion Cyffredinol

### *Adrannau 319, 320 a 325(1) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau*

Bydd y Trwyddedai'n sicrhau bod darpariaethau'r Cod Safonau yn cael eu dilyn wrth ddarparu'r Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol.

## 14A. Gofynion ar gyfer delio â chyfathrebiadau gan wylwyr

(1) Bydd y Trwyddedai yn gyfrifol am yr holl drefniadau ar gyfer rheoli cyfathrebu, gan gynnwys teleffoni, rhwng aelodau o'r cyhoedd a'r Trwyddedai neu gontractwyr neu asiantau'r Trwyddedai (a ddisgrifir yma gyda'i gilydd fel "y Trwyddedai") lle rhoddir cyhoeddusrwydd i gyfathrebu o'r fath mewn rhaglenni. Mae 'cyfathrebu' yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, ddulliau cyfathrebu lle mae ystyriaeth yn cael ei throsglwyddo rhwng aelod o'r cyhoedd a'r Trwyddedai yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol a dulliau cyfathrebu a fwriedir i ganiatáu i aelodau o'r cyhoedd gofrestru gyda'r Trwyddedai, eu dewis neu'r bwriad o ganiatáu mynediad i unrhyw gystadleuaeth, gêm neu gynllun a weithredir gan y Trwyddedai.

(2)

(a) Rhaid i'r trefniadau ar gyfer rheoli dulliau cyfathrebu y rhoddir cyhoeddusrwydd iddynt mewn rhaglenni ac y bwriedir iddynt ganiatáu cyfathrebu rhwng aelodau o'r cyhoedd a'r Trwyddedai sicrhau, yn benodol, bod:

(I) y Trwyddedai yn defnyddio sgil a gofal rhesymol wrth ddewis y dull cyfathrebu ac wrth ymdrin â chyfathrebiadau a dderbynnir;

(ii) pleidleisio, cystadlaethau, gemau neu gynlluniau tebyg yn cael eu cynnal mewn ffyrdd sy'n darparu triniaeth deg a chyson i bob pleidlais a chais cymwys; a

(iii) cyhoeddusrwydd mewn rhaglenni ar gyfer pleidleisio, cystadlaethau, gemau neu gynlluniau tebyg ddim yn sylweddol gamarweiniol.

(b) Yn ogystal â'r gofynion yn is-baragraff 2(a), bydd y Trwyddedai'n sicrhau bod darpariaethau'r cod a gymeradwyir gan Ofcom ar gyfer rheoleiddio darparu gwasanaethau cyfradd premiwm, neu yn absenoldeb cod o'r fath, delerau unrhyw orchymyn a wneir gan Ofcom at ddibenion o'r fath, yn cael eu dilyn wrth ddarparu'r Gwasanaeth Trwyddedig.

(3)

(a) Bydd y Trwyddedai'n gweithredu ac yn cynnal gweithdrefnau cydymffurfio priodol, i sicrhau bod trefniadau ar gyfer rheoli dulliau cyfathrebu sy'n cael cyhoeddusrwydd mewn rhaglenni ac sydd â'r bwriad o ganiatáu cyfathrebu rhwng aelodau o'r cyhoedd a'r Trwyddedai yn cyflawni'r holl ofynion a nodir ym mharagraff 2 uchod.

(b) Pan fydd y Trwyddedai'n defnyddio Gwasanaeth Cyfradd Premiwm a Reolir fel y'i diffinnir o dan yr Amod PRS sydd mewn grym ar y pryd o dan adran 120 o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 fel y dull cyfathrebu ar gyfer pleidleisio neu gystadlaethau, a hysbysebir o fewn amser rhaglen, bydd y Trwyddedai'n sicrhau bod ei weithdrefnau cydymffurfio yn cynnwys system ddilysu gan drydydd parti annibynnol priodol ('y trydydd parti'), yn unol â'r gofynion canlynol:

(i) Bydd dilysu'n cynnwys cadarnhad gan y trydydd parti bod dadansoddiad o'r systemau technegol a gweinyddol o un pen i'r llall i'w ddefnyddio ar gyfer derbyn a phrosesu pleidleisiau a cheisiadau cystadleuaeth gan aelodau o'r cyhoedd wedi'i gynnal, a bod systemau o'r fath yn bodloni'r holl ofynion a nodir ym mharagraff 2 uchod. Rhaid i bob system o'r fath a dadansoddiad systemau o'r fath gael eu dogfennu'n llawn.

(ii) Bydd dilysu'n cynnwys adolygiadau rheolaidd priodol o raglenni unigol gan drydydd parti. Rhaid i adolygiadau o'r fath olrhain pob pleidlais neu gais cystadleuaeth drwy bob cam o'u derbyn, a rhaid cofnodi canlyniadau pob adolygiad yn llawn.

(iii) Bydd y Trwyddedai yn sicrhau bod gan Gyfarwyddwr y Bwrdd (neu, os nad oes Bwrdd, swyddog cyfatebol priodol) ('y Cyfarwyddwr dynodedig') gyfrifoldeb penodol am ddilysu.

(iv) Bydd y Trwyddedai'n sicrhau bod y trydydd parti yn darparu adroddiadau ynghylch dadansoddiadau o brosesau (fel y nodir o dan is-baragraff 3(b)(i)) ac adolygiadau o raglenni unigol (fel y nodir o dan is-baragraff 3(b)(ii)) i'r Cyfarwyddwr dynodedig. Os canfyddir anghysondebau sylweddol neu broblemau eraill, bydd y Trwyddedai'n sicrhau bod y rhain yn cael eu hadrodd i Ofcom ar unwaith.

(v) Bydd y Trwyddedai yn darparu ar unwaith ac ar ffurf briodol unrhyw wybodaeth y mae Ofcom yn gofyn amdani ynghylch dilysu.

(vi) Bydd y Trwyddedai'n cadw am o leiaf ddwy flynedd yr holl ddata perthnasol ynghylch pleidleisiau a cheisiadau cystadleuaeth gan alwyr drwy Wasanaethau Cyfradd Premiwm a Reolir a'r holl ddogfennau sy'n ymwneud â dilysu ei systemau (fel y nodir o dan is-baragraff 3(b)(i)) a'r adolygiadau o raglenni unigol (fel y nodir o dan is-baragraff 3(b)(ii)).

(vii) Bydd y Trwyddedai'n cyhoeddi datganiad blynyddol wedi'i lofnodi gan y Cyfarwyddwr dynodedig sy'n cadarnhau eu bod yn fodlon bod gan y Trwyddedai weithdrefnau addas ar waith i gyflawni gofynion paragraff 3(b) a chadarnhau enw'r trydydd parti a ddefnyddir gan y Trwyddedai i gyflawni gofynion paragraff 3(b).

### *Adran 335 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau*

(4) Os yw'r Amod hwn yn berthnasol, ni fydd y Trwyddedai'n darlledu hysbysebion a thelesiopa sy'n benodol, ac yn eithaf aml, wedi'u cyfeirio at gynulleidfaoedd mewn un Parti ECTT ac eithrio'r DU, mewn ffordd y mae Parti ECTT arall wedi penderfynu ei fod yn mynd yn groes i reolau'r Parti ECTT hwnnw.

## 14B. Safonau'r ECTT

### *Rheoliad 7 OS 2019/224*

(1) Mae'r Amod hwn yn berthnasol os bydd y Gwasanaeth Trwyddedig, a thrwy gydol y cyfnod hwnnw:

(a) yn gallu cael ei dderbyn gan y cyhoedd ym mhob rhan o Barti ECTT arall, gan ddefnyddio offer safonol i ddefnyddwyr, ac

(b) ar gael yn y Parti perthnasol drwy amserlen rhaglenni electronig sydd-

(i) yn cael ei thrwyddedu neu'n cael ei rheoleiddio fel arall o dan gyfraith y Parti perthnasol, neu

(ii) yn cael ei ddarparu gan berson y mae ei brif swyddfa yn y Parti perthnasol, os yw'r Parti perthnasol yn Barti ac eithrio'r Deyrnas Unedig,

ac nad yw ei chyfraith yn rheoleiddio'r broses o ddarparu amserlenni rhaglenni electronig.

### *Adran 335 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau, Erthygl 16 ECTT*

(2) Os yw'r Amod 14B hwn yn berthnasol, ni fydd y Trwyddedai'n darlledu hysbysebion a thelesiopa sy'n benodol, ac yn eithaf aml, wedi'u cyfeirio at gynulleidfaoedd mewn un Parti ECTT ac eithrio'r DU, mewn ffordd y mae Parti ECTT arall wedi penderfynu ei fod yn mynd yn groes i reolau'r Parti ECTT hwnnw, oni bai bod y rheolau dan sylw yn sefydlu gwahaniaethu rhwng hysbysebu a thelesiopa a drosglwyddir gan ddarlledwyr o fewn awdurdodaeth y Parti ECTT hwnnw, a'r tu allan iddi.

## 15. Newyddion a Materion Cyfoes

### *Adrannau 279 a 280 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau*

(1) Bydd y Trwyddedai yn cynnwys rhaglenni newyddion a rhaglenni materion cyfoes yn y Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol sydd:

(a) o ansawdd uchel ac yn delio â materion cenedlaethol a rhyngwladol; ac

(b) (mewn perthynas â rhaglenni newyddion yn unig) yn cael eu darlledu i'w gwylio'n achlysurol (gan gynnwys y rheini a nodir yn Rhan 1 o'r Atodiad) drwy gydol y cyfnod y darperir y Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol ar ei gyfer ac (ynghyd â rhaglenni newyddion sydd wedi'u cynnwys mewn gwasanaethau Channel 3 rhanbarthol eraill) yn gallu cystadlu'n effeithiol â rhaglenni newyddion teledu eraill sy'n cael eu darlledu'n genedlaethol yn y Deyrnas Unedig.

(2) Bydd y Trwyddedai'n sicrhau bod yr amser a ddyrennir i raglenni newyddion sydd wedi'u cynnwys yn y Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol a rhaglenni materion cyfoes sydd wedi'u cynnwys yn y Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol:

(a) ym mhob achos yn gyfystyr â dim llai na chyfanswm yr amser a bennir yn Rhan 1 o'r Atodiad (gydag amser o'r fath yn gyfran briodol o'r amser a ddyrennir i ddarlledu'r holl raglenni sydd wedi'u cynnwys yn y Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol); a

(b) ym mhob achos, yn cael ei rannu rhwng yr Oriau Gwylio Brig ac adegau eraill yn y ffordd a nodir yn Rhan 1 yr Atodiad.

(3) Wrth gydymffurfio â'r Amod 15 hwn, rhaid i'r Trwyddedai ystyried unrhyw ganllawiau y gall Ofcom eu cyhoeddi.

## 16. Penodi Darparwr Newyddion

### *Adran 280 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau*

(1) Bydd y Trwyddedai'n gwneud popeth o fewn ei allu i sicrhau bod trefniadau a wneir yn unol ag Adran 280(3) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau ar gyfer penodi un corff corfforedig fel y Darparwr Newyddion Penodedig yn cael eu cynnal rhwng holl ddeiliaid trwyddedau Channel 3 rhanbarthol ac, yn benodol, i sicrhau bod trefniadau o'r fath yn darparu'r canlynol, yn ddarostyngedig i Amod 16(4) isod:

(a) bod y telerau ar gyfer gwneud penodiad o'r fath yn cynnwys y telerau yr ymddengys i Ofcom eu bod yn briodol ac yn unol ag unrhyw ganllawiau y gall Ofcom eu cyhoeddi o dan Adran 280(7)(a) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau ar gyfer sicrhau bod cyllid y corff a benodir, drwy gydol cyfnod ei benodiad, yn ddigonol i sicrhau bod modd bodloni'r rhwymedigaethau newyddion o dan Amod 15 uchod;

(b) bod angen cymeradwyaeth Ofcom at ddibenion paragraff (a) o'r Amod 16(1) hwn ar gyfer y telerau i wneud penodiad; a

(c) bod y Darparwr Newyddion Penodedig yn rhwym wrth rwymedigaeth, sy'n destun gorfodaeth gan Ofcom, i ddarparu i Ofcom yr holl wybodaeth y bydd ei hangen arno er mwyn cyflawni ei swyddogaethau.

(2) Bydd y Trwyddedai'n gwneud popeth o fewn ei allu i sicrhau, drwy gydol yr amser y bydd y Trwyddedai'n darparu'r Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol, bod penodiad wedi'i wneud yn unol â'r trefniadau y cyfeirir atynt yn Amod 16(1) uchod.

(3) Bydd y Trwyddedai yn:

(a) yn sicrhau bod rhaglenni newyddion, sy'n cael eu cynnwys yn y Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol, sy'n cydymffurfio ag Amod 16(1) ac yn cael eu darparu gan y Darparwr Newyddion Penodedig, sy'n rhaglenni newyddion a gyflwynir yn fyw a'u darlledu ar yr un pryd â darlledu rhaglenni newyddion sy'n cael eu darparu mewn gwasanaethau Channel 3 rhanbarthol eraill, yn cydymffurfio â'r amodau perthnasol sy'n cael eu gosod yn eu trwyddedau yn unol ag Adran 280(5) a (6) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau; a

*Adran 4(1)(c) o Ddeddf 1990*

(b) yn rhoi rhybudd ysgrifenedig ymlaen llaw i Ofcom pan fydd penodiad y Darparwr Newyddion Penodedig ar fin dod i ben, neu pan fydd yn cael ei adnewyddu neu ei derfynu yn unol â thelerau'r penodiad.

(4) Ni fydd y gofynion a nodir ym mharagraffau (a), (b) a (c) o Amod 16(1) uchod yn gymwys mewn perthynas ag unrhyw benodiad a wnaed cyn dechrau Adran 280 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau.

### *Adran 281 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau*

(5) Bydd y Trwyddedai'n sicrhau na fydd corff yn cael ei benodi'n Ddarparwr Newyddion Penodedig:

(a) os yw'n unigolyn sydd wedi'i anghymhwyso o dan Ran II o Atodlen 2 i Ddeddf 1990 mewn perthynas â thrwydded Channel 3; neu

(b) y byddai Rhan 1 o Atodlen 14 i'r Ddeddf Cyfathrebiadau (boed gan y corff hwnnw neu gan unigolyn arall) yn cael ei thorri pe bai gan y corff hwnnw drwydded i ddarparu gwasanaeth Channel 3, neu fod ganddo drwydded i ddarparu gwasanaeth o'r fath ar gyfer ardal benodol y darperir gwasanaeth o'r fath ar ei chyfer;

a bydd y Trwyddedai'n sicrhau y bydd penodiad corff fel Darparwr Newyddion Penodedig yn peidio â chael effaith os daw'n gorff sy'n dod o fewn paragraffau (a) neu (b) o'r Amod 16(5) hwn.

## 17. Darllediadau Gwleidyddol gan Bleidiau

### *Adran 333 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau*

(1) Bydd y Trwyddedai yn cynnwys yn y Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol ddarllediadau gwleidyddol gan bleidiau a darllediadau ymgyrchoedd refferendwm (fel y'u diffinnir yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000) yn unol â'r rheolau o'r fath y cyfeirir atynt ym mharagraff 38 o Atodlen 18 i'r Ddeddf Cyfathrebiadau, neu a wneir o bryd i'w gilydd gan Ofcom yn unol ag Adran 333(1)(b) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau mewn perthynas â materion o'r fath.

(2) Gall rheolau o'r fath gynnwys, heb gyfyngiad, ddarpariaeth o ran: y pleidiau gwleidyddol y gellir gwneud darllediadau gwleidyddol ar eu rhan, hyd ac amlder darllediadau o'r fath, a hyd ac amlder darllediadau ymgyrchoedd refferendwm y mae'n ofynnol eu darlledu ar ran pob sefydliad dynodedig (fel y'i diffinnir yn Adran 333(6) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau).

## 18. Digwyddiadau Rhestredig

### *Adran 101(1) o Ddeddf 1996 (gweler hefyd Adran 300(2) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau)*

(1) Bydd y Trwyddedai yn cydymffurfio ym mhob ffordd â darpariaethau digwyddiadau rhestredig Deddf 1996 ac, er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, bydd darpariaethau yn yr Amod 18 hwn sy'n deillio o ddiwygiadau a wnaed i Ddeddf 1996 gan y Ddeddf Cyfathrebiadau yn berthnasol dim ond o'r adeg o'r fath y cychwynnir Adrannau perthnasol y Ddeddf honno.

### *Adran 104ZA ac 101(1) o Ddeddf 1996 (gweler Adran 302(1) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau)*

(2) Ni chaiff y Trwyddedai gynnwys darllediadau byw o'r holl ddigwyddiad rhestredig neu ran ohono o fewn y Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol (y "**gwasanaeth cyntaf**") oni bai:

(a)

(i) bod unigolyn arall sy'n darparu gwasanaeth sy'n dod o fewn Adran 98(1)(a) o Ddeddf 1996 (yr "ail wasanaeth") wedi caffael yr hawl i gynnwys darllediad byw o'r digwyddiad cyfan neu ran ohono, yn yr ail wasanaeth; a

(ii) bod yr ardal y darperir yr ail wasanaeth ar ei chyfer yn cynnwys y cyfan, neu'r cyfan i raddau helaeth, o'r ardal y darperir y gwasanaeth cyntaf ar ei chyfer; neu

(b) bod Ofcom wedi cydsynio ymlaen llaw i gynnwys y darllediad hwnnw yn y gwasanaeth cyntaf; neu

(c) mae'r digwyddiad yn ddigwyddiad Grŵp B y mae hawliau i ddarparu darllediad ar ei gyfer wedi cael eu caffael gan un neu fwy o bobl eraill yn ychwanegol at y Trwyddedai; a

(i) bod darllediad ychwanegol yn golygu darllediad ychwanegol digonol ar gyfer y digwyddiad; a

(ii) bod yr unigolyn neu'r unigolion sydd wedi cael hawliau i ddarparu'r darllediad ychwanegol yn bodloni gofynion unrhyw reoliadau a wneir gan Ofcom yn unol ag Adran 104A o Ddeddf 1996, mewn perthynas â'r darllediad hwnnw.

### *Adran 97(5) o Ddeddf 1996 (gweler hefyd Adran 299(3) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau)*

(3) Nid yw Amod 18(2) yn berthnasol gyda'r canlynol:

(a) mae'r Trwyddedai'n arfer hawliau a gaffaelwyd cyn 1 Hydref 1996; ac

(b) mae’r Trwyddedai’n arfer hawliau a gaffaelwyd mewn perthynas â digwyddiad a restrir ar ôl 1 Hydref 1996 lle caffaelwyd hawliau o’r fath cyn y dyddiad y cyfeirir ato yn Adran 97(5)(a) o Ddeddf 1996.

### *Adran 97(5A) a (5B) o Ddeddf 1996 (gweler Adran 299(4) o’r Ddeddf Cyfathrebiadau)*

(4) Dyrannu neu drosglwyddo digwyddiad i Grŵp A:

(a) ni fydd yn effeithio ar ddilysrwydd hawliau a gadfaelwyd mewn perthynas â'r digwyddiad hwnnw pan gaffaelwyd hawliau o'r fath cyn y dyddiad y cyfeirir ato yn Adran 97(5A) o Ddeddf 1996; a

(b) phan fo’r Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud cyfarwyddyd yn unol ag Adran 97(5B), ni fydd yn effeithio ar gymhwyso Amod 18(2)(c) a fydd yn parhau i fod yn gymwys mewn perthynas â digwyddiad Grŵp B a drosglwyddir i Grŵp A fel pe bai’r digwyddiad yn ddigwyddiad Grŵp B o hyd.

### *Adran 101(1)(b) o Ddeddf 1996 (gweler hefyd Adran 300(2) o’r Ddeddf Cyfathrebiadau)*

(5) Ac eithrio lle nodir yn wahanol, mae’r Amod 18 hwn yn berthnasol i’r Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol os, ac i’r graddau y mae Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol ar gael (o fewn ystyr Rhan 3 o’r Ddeddf Cyfathrebiadau) ydyw i’w dderbyn gan aelodau o’r cyhoedd yn y Deyrnas Unedig neu mewn unrhyw ran o’r Deyrnas Unedig.

### *Adran 101A a 101B(1) o Ddeddf 1996*

(6) Ni fydd y Trwyddedai, heb ganiatâd blaenorol Ofcom, yn arfer unrhyw hawliau i ddarlledu, ar gyfer derbyniad mewn Gwladwriaeth AEE, yr holl ddigwyddiad neu ran ohono:

(a) sydd wedi'i ddynodi gan y Wladwriaeth AEE honno, a'i hysbysu i'r Comisiwn Ewropeaidd, yn unol ag Erthygl 14 o'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol, yn bwysig iawn i'w chymdeithas; a

(b) lle mae cyfran sylweddol o’r cyhoedd yn y Wladwriaeth honno yn cael ei hamddifadu o’r posibilrwydd o ddilyn y digwyddiad hwnnw drwy ddarllediadau byw neu ohiriedig ar deledu am ddim fel y pennir gan y Wladwriaeth honno yn unol ag Erthygl 14 o’r Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol.

Nid yw’r Amod hwn yn amharu ar hawl y Trwyddedai i gael mynediad at ddigwyddiadau sydd o ddiddordeb mawr i’r cyhoedd at ddibenion adroddiadau newyddion byr, yn unol ag Erthygl 15 o’r Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol.

### *Adran 101B(1A) o Ddeddf 1996*

(6A) Ni fydd y Trwyddedai, heb ganiatâd blaenorol Ofcom, yn arfer unrhyw hawliau i ddarlledu, ar gyfer derbyniad mewn Parti ECTT arall, yr holl ddigwyddiad neu ran ohono:

(a) sydd wedi'i ddynodi gan y Parti ECTT arall hwnnw, a'i gyhoeddi gan Bwyllgor Sefydlog y Confensiwn Ewropeaidd ar Deledu Trawsffiniol, yn unol ag Erthygl 9a o'r cytuniad hwnnw, yn bwysig iawn i'w gymdeithas; a

(b) lle mae cyfran sylweddol o'r cyhoedd yn y Parti hwnnw yn cael ei hamddifadu o'r posibilrwydd o ddilyn y digwyddiad hwnnw drwy ddarllediadau byw neu ohiriedig ar deledu am ddim fel y pennir gan y Parti hwnnw yn unol ag unrhyw ganllawiau a roddir gan Bwyllgor Sefydlog y Confensiwn Ewropeaidd ar Deledu Trawsffiniol.

Nid yw'r Amod hwn yn amharu ar hawl y Trwyddedai i ddarlledu adroddiadau byr am ddigwyddiadau sydd o ddiddordeb mawr i'r cyhoedd yn unol ag Erthygl 9 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Deledu Trawsffiniol.

### *Adran 104A o Ddeddf 1996 (gweler Adran 302(1) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau) ac Adran 104(1) o Ddeddf 1996 (gweler hefyd Adran 301(1) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau)*

(7) At ddibenion yr Amod 18 hwn:

(a) penderfynir ar yr amgylchiadau y mae darlledu digwyddiadau rhestredig yn gyffredinol, neu ddigwyddiad rhestredig penodol, yn cael eu trin yn fyw ai peidio at ddibenion Rhan IV o Ddeddf 1996, yn unol â'r rheoliadau y cyfeirir atynt yn Amod 18(2)(c)(i) uchod;

(b) bydd yr hyn a dderbynnir (boed yn gyffredinol neu mewn perthynas ag amgylchiadau penodol) fel cynrychiolaeth o ddarpariaeth darlledu amgen ddigonol yn cael ei benderfynu yn unol â'r rheoliadau y cyfeirir atynt yn Amod 18(2)(c)(ii) uchod;

(c) bydd canllawiau ar y materion y bydd Ofcom yn eu hystyried wrth benderfynu:

(i) a ddylid rhoi neu ddirymu eu cydsyniad at ddibenion Amod 18(1) ac 18(6); ac

(ii) a ddylid gweithredu yn unol ag Amod 39(4)(a) neu 39(4)(b) mewn amgylchiadau lle nad yw'r Trwyddedai'n cydymffurfio ag Amodau 18(2) neu 18(6), yn cael eu ddarparu yn y Cod ar Chwaraeon a Digwyddiadau Rhestredig a Dynodedig Eraill.

(8) Bydd y Trwyddedai yn darparu i Ofcom unrhyw wybodaeth y gall Ofcom ei mynnu'n rhesymol i benderfynu a yw'r Trwyddedai'n cydymffurfio â'r Amod 18 hwn ac at ddibenion gwneud penderfyniad yn unol ag Adran 102 neu Adran 103 o Ddeddf 1996.

## 19. Safonau a Gofynion Hysbysebu a Nawdd

### *Adran 322 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau*

(1) Bydd y Trwyddedai yn cydymffurfio â'r holl gyfarwyddiadau, boed yn gyffredinol neu'n benodol a/neu'n amodol neu'n ddiamod, a roddir iddynt gan Ofcom, mewn perthynas â'r canlynol:

(a) uchafswm yr amser sydd i'w roi i hysbysebion mewn unrhyw awr neu gyfnod arall;

(b) yr ysbaid byrraf sy'n gorfod mynd heibio rhwng unrhyw ddau gyfnod a roddir i hysbysebion;

(c) nifer y cyfnodau o'r fath sydd i'w caniatáu mewn unrhyw raglen neu mewn unrhyw awr neu ddiwrnod; a

(d) gwahardd hysbysebion o ran benodol o'r Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol,

y gall cyfarwyddiadau wneud darpariaeth wahanol ar gyfer gwahanol rannau o'r dydd, gwahanol rannau o'r wythnos, gwahanol fathau o raglenni neu ar gyfer gwahanol amgylchiadau eraill.

### *Adrannau 325(4) a (5) a 321(4) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau*

(2) Bydd y Trwyddedai yn cydymffurfio â'r holl gyfarwyddiadau a roddir iddynt gan Ofcom mewn perthynas â hysbysebion neu ddulliau hysbysebu neu nawdd, gan gynnwys cyfarwyddiadau mewn perthynas â'r canlynol:

(a) gwahardd hysbyseb benodol o'r Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol, neu ei wahardd mewn amgylchiadau penodol;;

(b) y disgrifiadau o hysbysebion a dulliau hysbysebu sydd i'w gwahardd o'r Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol (boed yn gyffredinol neu mewn amgylchiadau penodol); a'r

(c) ffurfiau a'r dulliau noddi sydd i'w gwahardd o'r Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol (boed yn gyffredinol neu mewn amgylchiadau penodol).

### *Adrannau 121 i 123 a 321(4) o’r Ddeddf Cyfathrebiadau*

(3) Bydd y Trwyddedai’n sicrhau bod darpariaethau’r cod a gymeradwyir gan Ofcom ar gyfer rheoleiddio darparu gwasanaethau cyfradd premiwm, neu yn absenoldeb cod o’r fath, y telerau o unrhyw orchymyn a wneir gan Ofcom at ddibenion o’r fath, yn cael eu dilyn wrth ddarparu’r Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol.

### *Adrannau 321(1) a 321(4) o’r Ddeddf Cyfathrebiadau*

(4) Bydd y Trwyddedai’n sicrhau bod darpariaethau’r Cod Safonau sydd wedi’u gosod i sicrhau’r amcanion yn Adran 319(2)(a) a (g) i (j) o’r Ddeddf Cyfathrebiadau ac sy’n ymwneud â safonau ac arferion wrth hysbysebu a noddi rhaglenni ac unrhyw waharddiadau ar hysbysebion, ffurfiau a dulliau hysbysebu neu noddi rhaglenni yn cael eu dilyn wrth ddarparu’r Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol.

### *Adran 321(4) o’r Ddeddf Cyfathrebiadau*

(5) Bydd y Trwyddedai yn rhoi manylion i Ofcom, ar ba bynnag ffurf ac o fewn pa gyfnod bynnag y bydd Ofcom yn gofyn yn rhesymol amdanynt, unrhyw hysbyseb benodol neu unrhyw ddosbarth o hysbyseb a bennir gan Ofcom neu unrhyw raglen noddedig y bydd Ofcom yn gofyn amdani o bryd i’w gilydd.

## 20. Isdeitlo, Iaith Arwyddion a Disgrifiadau Sain

### *Adran 307(1) o’r Ddeddf Cyfathrebiadau*

Bydd y Trwyddedai’n sicrhau bod darpariaethau’r Cod ar Wasanaethau Mynediad Teledu yn cael eu dilyn wrth ddarparu Gwasanaeth Rhanbarthol Channel 3 a bydd y Trwyddedai’n darparu isdeitlau, iaith arwyddion a disgrifiadau sain yn y niferoedd a nodir yn Rhan 1 o’r Atodiad.

## 21. Trefniadau Trawsyrru a Safonau a Gofynion Technegol ar gyfer y Gwasanaeth Rhanbarthol Channel 3

### *Adran 4(1)(d) o Ddeddf 1990*

(1) Bydd y Trwyddedai yn:

(a) sicrhau bod Gwasanaeth Rhanbarthol Channel 3 yn cael ei ddarlledu er mwyn iddo fod ar gael i’w dderbyn gan aelodau o’r cyhoedd yn yr Ardal Drwyddedig gan ddeiliad trwydded Amlblecs C3/C4 yn unol â’r Tabl o Orsafoedd Darlledu Daearol Digidol ar gyfer Trwyddedau Amlblecs;

(b) cyfrannu at y costau a wynebir gan ddeiliad y drwydded amlblecs C3/C4 mewn perthynas â darlledu i’w dderbyn gan aelodau o’r cyhoedd o holl wasanaethau

Channel 3 (a gymerir gyda'i gilydd) ar ffurf ddigidol mewn modd y gall Ofcom ei gymeradwyo;

(c) cyfrannu at y costau a ysgwyddir mewn perthynas â Dosbarthu holl wasanaethau Channel 3 (a gymerir gyda'i gilydd) ar ffurf ddigidol mewn unrhyw fodd a gymeradwyir gan Ofcom; a

(d) gwneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau bod darpariaethau perthnasol Cod Perfformiad Technegol Teledu yn cael eu dilyn yn yr holl weithrediadau o dan eu rheolaeth uniongyrchol, wrth Ddosbarthu'r rhaglenni sydd wedi'u cynnwys yn y Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol, a chan unrhyw drydydd partïon sy'n ymwneud â darparu rhaglenni sydd wedi'u cynnwys yn y Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol..

(2) Yn yr Amod 21 hwn, ac o fewn diffiniadau a ddefnyddir yn yr Amod hwn, bydd "ar gael i'w dderbyn gan aelodau o'r cyhoedd" yn cael ei ddehongli yn unol ag Adran 361 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau.

## 22. Cadw a Chynhyrchu Recordiadau

### *Adran 325(1) a (2) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau*

(1) Bydd y Trwyddedai yn mabwysiadu gweithdrefnau sy'n dderbyniol i Ofcom ar gyfer cadw a chynhyrchu recordiadau o allbwn darlledu'r Gwasanaeth Trwyddedig mewn sain a llun. Os yw'r Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol yn Amserlen Rhaglenni Electronig, gall yn lle hynny fabwysiadu gweithdrefnau sy'n dderbyniol i Ofcom ar gyfer cadw a chynhyrchu'r wybodaeth sydd yn yr Amserlen Rhaglenni Electronig ar ffurf y gellir ei darllen gan bobl. Dylai data'r Amserlen Rhaglenni Electronig fod yn amlwg yn ogystal â'r sianel, yr amser, y dyddiad a'r rhanbarth perthnasol.

### *Adran 334(1) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau*

(2) Yn benodol, bydd y Trwyddedai:

(a) yn gwneud a chadw neu drefnu i gadw recordiad sain a llun ar gyfer pob rhaglen sydd wedi'i chynnwys yng Ngwasanaeth Rhanbarthol Channel 3 am gyfnod o 90 diwrnod o'r dyddiad y'i cynhwysir ynddo. Os yw'r Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol yn Amserlen Rhaglenni Electronig, gall yn lle hynny wneud a chadw neu drefnu i gadw'r wybodaeth sydd yn yr Amserlen Rhaglenni Electronig ar ffurf y gellir ei darllen gan bobl ar gyfer yr un cyfnod;

(b) ar gais Ofcom, cyflwyno i Ofcom ar unwaith unrhyw recordiad neu wybodaeth o'r fath i'w harchwilio neu ei hatgynhyrchu; ac

(c) ar gais Ofcom, cyflwyno i Ofcom ar unwaith unrhyw sgript neu drawsgrifiad o raglen sydd wedi'i chynnwys yn y Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol y gallant ei chyflwyno iddo.

## 23. Darparu Gwybodaeth i Ofcom yn gyffredinol

### *Adran 4(1)(c) o Ddeddf 1990*

(1) Rhaid i'r Trwyddedai roi i Ofcom, mewn modd o'r fath ac ar unrhyw adegau y gall Ofcom ofyn yn rhesymol amdanynt, ddogfennau, cyfrifon, ffurflenni, amcangyfrifon, adroddiadau, hysbysiadau neu wybodaeth arall y gall Ofcom ofyn amdanynt er mwyn arfer y swyddogaethau a neilltuir iddo gan Ddeddf 1990, Deddf 1996, neu'r Ddeddf Cyfathrebiadau, neu oddi tanynt, ac yn benodol (ond heb amharu ar gyffredinolrwydd yr uchod)):

(a) datganiad ynghylch ei strwythur corfforaethol (neu'r hyn sy'n cyfateb iddo os nad yw'r Trwyddedai yn gorff corfforediaethol) ar unrhyw ffurf ac ar unrhyw adeg a bennir gan Ofcom;

### *Adran 143(5) o Ddeddf 1996 ac Adran 5(1) o Ddeddf 1990*

(b) gwybodaeth o'r fath y gall Ofcom yn rhesymol ofyn amdani o bryd i'w gilydd at ddibenion penderfynu a yw'r Trwyddedai ar unrhyw sail yn unigolyn sydd wedi'i anghymhwyso yn rhinwedd unrhyw un o'r darpariaethau yn Adran 143(5) o Ddeddf 1996 a/neu Atodlen 2 i Ddeddf 1990, neu'n mynd yn groes i ofynion a osodir gan neu o dan Atodlen 14 i'r Ddeddf Cyfathrebiadau;

### *Adran 4(1)(c) o Ddeddf 1990 ac Adran 15 o Ddeddf 1996*

(c) ffurflenni incwm a gwariant blynyddol ac atodiadau atodol ar unrhyw ffurf ac ar unrhyw adeg y bydd Ofcom yn gofyn amdanynt; ac

### *Adran 4(1)(c) ac 19 o Ddeddf 1990*

(d) datganiadau o'u refeniw cymwys yn fisol a hefyd mewn perthynas â phob cyfnod cyfrifyddu cyfan ar y ffurf y bydd Ofcom yn gofyn amdani.

### *Adrannau 4(1)c a 183 o Ddeddf 1990*

(e) gwybodaeth o'r fath y gall Ofcom ofyn amdani er mwyn cyflawni unrhyw swyddogaethau a gyflawnir ganddo mewn perthynas â'r Gronfa Teledu Gaeleg.

## 24. Hysbysiadau i Ofcom

### *Adran 5(5) o Ddeddf 1990*

(1) Bydd y Trwyddedai yn rhoi gwybod i Ofcom ar unwaith yn ysgrifenedig os:

(a) daw'r Trwyddedai yn ymwybodol bod unrhyw orchymyn yn cael ei wneud neu fod unrhyw benderfyniad yn cael ei basio neu fod camau eraill yn cael eu cymryd ar gyfer diddymu, terfynu bodolaeth, datodi (boed yn orfodol neu'n wirfoddol), neu ddirwyn y Trwyddedai i ben (ac eithrio at ddibenion ailadeiladu neu uno a wneir tra bo'r Trwyddedai'n ddiddyled ac a gymeradwywyd yn flaenorol yn ysgrifenedig gan Ofcom yn unol ag Amod 28 isod), neu y penodir diddymwr, ymddiriedolwr, derbynnydd, derbynnydd gweinyddol, gweinyddwr, rheolwr neu swyddog tebyg mewn perthynas â'r Trwyddedai, neu mewn perthynas â'r holl asedau, neu ran ohonynt; neu

(b) bydd y Trwyddedai'n gwneud neu'n bwriadu ymrwymo i unrhyw gynllun cyfaddawd neu drefniant gyda'u credydwyr, ac eithrio at ddibenion uno neu ailadeiladu tra bo'r Trwyddedai'n ddiddyled; neu

(c) yw'r Trwyddedai'n caniatáu darafaeliad yn erbyn ei asedau a/neu ei eiddo ac yn caniatáu i weithredu o'r fath barhau i fod yn ddyledus am fwy na 14 diwrnod; neu

(d) daw'r Trwyddedai yn ymwybodol bod unrhyw unigolyn sydd â rheolaeth dros y Trwyddedai yn gwneud un o'r digwyddiadau a nodir yn Amod 24(1)(a) i (c) uchod, neu'n ddarostyngedig i unrhyw un ohonynt; neu

(e) bydd unrhyw beth cyfatebol neu sy'n cael effaith sylweddol debyg i unrhyw un o'r digwyddiadau a bennir yn Amod 24(1) (a) i (d) uchod yn digwydd o dan gyfreithiau unrhyw awdurdodaeth berthnasol.

### *Adrannau 3(6) a (7) a 4(1)(c) o Ddeddf 1990*

(2) Bydd y Trwyddedai yn rhoi gwybod i Ofcom pan roddir dyfarniad terfynol yn eu herbyn mewn unrhyw achos llys a ddygir yn eu herbyn mewn perthynas â chynnwys yn y Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol, unrhyw fater difenwol, bradwrus, cableddus neu anweddus, neu unrhyw fater sy'n gyfystyr ag anwiredd niweidiol neu athrodi teitl neu unrhyw gamwedd neu dor-hawlfraint, hawl foesol, hawl mewn perfformiad, hawl ddylunio, dyluniad cofrestredig, nod gwasanaeth, nod masnach, breintlythyrau neu hawl fonopoli debyg arall, neu dorri darpariaethau'r Deddfau Cyfrinachol Swyddogol neu unrhyw ddeddfiad neu reoliad statudol sydd mewn grym am y tro neu drosedd neu ddirmyg Llys neu dorri braint Seneddol.

(3) Bydd y Trwyddedai yn rhoi gwybod i Ofcom os byddant hwy neu unrhyw unigolyn sydd â rheolaeth drostynt o fewn ystyr paragraff 1(3), Rhan I o Atodlen 2 i Ddeddf 1990, yn cael dedfryd i gyfnod o garchar (gan gynnwys cyfnod gohiriedig) ar ôl cael euogfarn am drosedd.

### *Erthygl 1(3)(b) o Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol*

(4) Bydd y Trwyddedai yn rhoi gwybod i Ofcom am unrhyw newid a allai effeithio ar y meini prawf y mae'r Gwasanaeth Trwyddedig yn dod o dan awdurdodaeth y DU cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol.

### *Adran 5(2) o Ddeddf 1990 (gweler hefyd baragraff 3(3) o Ran 1 o Atodlen 15 i'r Ddeddf Cyfathrebiadau ac Adran 351(1) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau)*

(5) Pan fydd y Trwyddedai yn gorff corfforedig, bydd y Trwyddedai'n rhoi gwybod i Ofcom:

(a) am gynigion a allai arwain at newid rheolaeth perthnasol o fewn ystyr Adran 351(10) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau ac unrhyw gynigion sy'n effeithio ar gyfranddaliadaethau yn y Trwyddedai neu unrhyw gorff corfforedig sy'n rheoli'r Trwyddedai, neu gyfarwyddwyr y Trwyddedai neu gyfarwyddwyr unrhyw gorff corfforedig sy'n rheoli'r Trwyddedai, ac unrhyw gynigion i ymrwymo i unrhyw drefniadau o'r fath y cyfeirir atynt yn Amod 24(6)(2) isod, drwy roi hysbysiad ymlaen llaw o gynigion o'r fath lle maent yn hysbys i'r Trwyddedai cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol, lle byddai'r cynigion yn gyfystyr â newid yn yr unigolion sydd â rheolaeth dros y Trwyddedai o fewn ystyr Atodlen 2, Rhan I paragraff 1(3) o Ddeddf 1990; ac

(b) o newidiadau, trafodion neu ddigwyddiadau sy'n effeithio ar gyfranddaliadaethau yn y Trwyddedai neu unrhyw gorff corfforedig sy'n rheoli'r Trwyddedai, neu gyfarwyddwyr y Trwyddedai neu gyfarwyddwyr unrhyw gorff corfforedig sy'n rheoli'r Trwyddedai (p'un a yw'r cynigion ar eu cyfer wedi cael eu hysbysu) o fewn 28 diwrnod i'r Trwyddedai ddod yn ymwybodol o unrhyw newid, trafodiad neu ddigwyddiad o'r fath a lle byddai newid, trafodiad neu ddigwyddiad o'r fath yn golygu newid yn yr unigolion sydd â rheolaeth dros y Trwyddedai yn yr ystyr yn Atodlen 2, Rhan I paragraff 1(3) o Ddeddf 1990;

a bydd y Trwyddedai yn darparu i Ofcom, mewn unrhyw ffordd ac ar unrhyw adeg y bydd yn gofyn yn rhesymol amdano, unrhyw wybodaeth sy'n angenrheidiol ym marn Ofcom at ddibenion arfer ei swyddogaethau o dan Adrannau 351 a 352 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau.

### *Paragraff 1(3) (b), (c) a (3A) o Ran 1 i Atodlen 2 i Ddeddf 1990 (gweler hefyd Adran 357 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau)*

(6)

(a) Bydd y Trwyddedai yn rhoi gwybod i Ofcom o fewn 28 diwrnod os bydd unrhyw unigolyn:

(i) yn dal neu â hawl lesiannol i 50 y cant o gyfalaf cyfrannau ecwiti yn y Trwyddedai neu mewn unrhyw gorff corfforedig sy’n rheoli’r Trwyddedai; neu’n

(ii) meddu ar 50 y cant o’r pŵer pleidleisio yn y Trwyddedai neu unrhyw gorff corfforedig sy’n rheoli’r Trwyddedai,

yn ymrwymo i drefniant gydag unrhyw gyfranogwr arall yn y Trwyddedai neu mewn unrhyw gorff corfforedig o’r fath sy’n rheoli’r Trwyddedai o ran y modd y mae unrhyw bŵer pleidleisio yn y corff sy’n eiddo i’r naill neu’r llall ohonynt i’w arfer, neu o ran yr hepgoriad gan y naill neu’r llall ohonynt i arfer pŵer pleidleisio o’r fath.

### *Paragraff 2 o Ran 1 o Atodlen 14 i’r Ddeddf Cyfathrebiadau*

(b) Bydd y Trwyddedai yn rhoi gwybod i Ofcom o fewn 28 diwrnod i unrhyw newid mewn amgylchiadau a fyddai’n gweithredu yn erbyn y cyfyngiadau a nodir ym mharagraff 2 o Ran 1 o Atodlen 14 i’r Ddeddf Cyfathrebiadau, gan gynnwys:

(i) yn y papurau newydd cenedlaethol neu leol y mae ganddynt hwy neu unrhyw unigolyn sy'n gysylltiedig â hwy fuddiant ynddynt;

(ii) o fuddiant mewn corff corfforedig sy'n berchennog papur newydd cenedlaethol perthnasol (o fewn ystyr paragraff 2(6) o Ran 1 o Atodlen 14 i'r Ddeddf Cyfathrebiadau) y maent yn gyfranogwr ynddo; neu

(iii) unrhyw newid yn rheolaeth unrhyw gorff corfforedig sy’n gyfranogwr yn y Trwyddedai (lle bo’r Trwyddedai’n gorff corfforedig), lle mae corff corfforedig o’r fath yn un lle mae perchennog papur newydd cenedlaethol perthnasol yn gyfranogwr.

(c) At ddibenion Amod 24(6):

(i) mae “**trefniant**” yn cynnwys unrhyw gytundeb neu drefniant, p’un ai y gellir ei orfodi’n gyfreithiol, neu os mai dyma yw’r bwriad;

(ii) rhaid trin unigolyn fel pe bai’n dal neu pe bai ganddo hawl lesiannol i unrhyw gyfalaf cyfrannau ecwiti sy'n cael ei ddal gan gorff corfforedig maent yn ei reoli neu y mae gan gorff corfforedig o'r fath hawl lesiannol iddo, ac fel pe bai ganddo unrhyw bŵer pleidleisio a feddir gan gorff corfforedig o'r fath; ac

(iii) ystyr “**cyfranogwr**”, mewn perthynas â chorff corfforedig, yw unigolyn sy’n dal neu sydd â hawl lesiannol i gyfrannau yn y corff hwnnw neu sydd â phŵer pleidleisio yn y corff hwnnw

### *Adran 4(1)(c) o Ddeddf 1990*

(7) Bydd y Trwyddedai’n darparu i Ofcom unrhyw wybodaeth sy’n rhesymol i Ofcom ofyn amdani o bryd i’w gilydd, ynghylch cyfran y farchnad genedlaethol neu leol o unrhyw bapur newydd neu bapurau newydd, i’r graddau y mae’n ymddangos bod y cyfryw gyfrannau yn y farchnad genedlaethol neu leol yn berthnasol i Ofcom at ddibenion penderfynu a gydymffurfiwyd ag unrhyw un o’r cyfyngiadau yn Rhan 1 o Atodlen 14 i’r Ddeddf Cyfathrebiadau, neu er mwyn penderfynu a yw unrhyw un o’r amgylchiadau a ddisgrifir yn y Rhan honno yn berthnasol.

## 25. Adnewyddu'r Drwydded

### *Adran 216 o’r Ddeddf Cyfathrebiadau*

(1) Yn amodol ar ddarpariaethau Adran 228(6) a (7) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau, gellir adnewyddu’r Drwydded am gyfnod o ddeng mlynedd o ddiwedd y Cyfnod Trwyddedu Cychwynnol a phob Cyfnod Trwyddedu Dilynol sy’n gyfredol adeg y cais.

(2) Caiff y Trwyddedai wneud cais i Ofcom am adnewyddu’r Drwydded heb fod yn gynharach na phedair blynedd cyn y dyddiad y byddai fel arall yn peidio â bod mewn grym, a heb fod yn hwyrach na thri mis cyn y Dyddiad Perthnasol.

(3) Yn amodol ar ddarpariaethau Adran 216(11) y Ddeddf Cyfathrebiadau, gall Ofcom benderfynu peidio ag adnewyddu’r Drwydded os:

(a) nad yw’n fodlon y byddai’r Trwyddedai, petai’r Drwydded yn cael ei hadnewyddu, yn darparu’r Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol yn unol ag Amodau 7, 9, 10, 11, 12, 13 a 15;

(b) mae’n cynnig rhoi trwydded Channel 3 Rhanbarthol newydd ar gyfer darparu gwasanaeth yn lle’r Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol a fyddai’n wahanol i’r Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol yn:

(i) yr ardal y byddai'n cael ei darparu; neu

(ii) adegau o'r dydd, neu ddiwrnodau'r wythnos, y byddai'n cael ei ddarparu, neu’n cael ei ddarparu rhwng y cyfnodau yma;

(c) mae’n ymddangos i Ofcom fod sail dros amau y gallai unrhyw ffynhonnell o arian y gallai’r Trwyddedai (yn uniongyrchol neu’n anuniongyrchol) fod â hawl iddi er mwyn:

(i) talu swm y Taliad Adnewyddu;

(ii) talu swm y Taliad Adnewyddu fel y'i cynyddwyd gan y Ganran Briodol mewn perthynas â phob blwyddyn ddilynol sy'n dod yn gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn y Cyfnod Adnewyddu;

(iii) talu swm, a bennir o dan Adran 217(1)(b) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau, sy'n cynrychioli canran benodol o refeniw cymwys mewn perthynas â phob cyfnod cyfrifyddu'r Trwyddedai sy'n dod o fewn y Cyfnod Adnewyddu;

(iv) ariannu darpariaeth y Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol fel arall,

o'r fath fel na fyddai er budd y cyhoedd i'r Drwydded gael ei hadnewyddu; ac ar ôl i Ofcom gyfeirio cais adnewyddu'r Trwyddedai at yr Ysgrifennydd Gwladol ynghyd â chopi o'r holl ddogfennau a gyflwynwyd iddo gan y Trwyddedai a chrynodeb o'i drafodaethau ar y cais, mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi gwrthod cydsynio i adnewyddu ar y sail bod y ffynhonnell arian yn gyfryw fel na fyddai er budd cyhoeddus i'r Drwydded gael ei hadnewyddu felly.

### *Adran 217 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau*

(4) Wrth ganiatáu unrhyw gais o'r fath, bydd Ofcom yn penderfynu:

(a) swm y Taliad Adnewyddu; a

(b) chanran o refeniw cymwys ar gyfer pob cyfnod cyfrifyddu sy'n dod o fewn y Cyfnod Adnewyddu y bydd yn rhaid i'r Trwyddedai ei dalu i Ofcom.

(5) At ddibenion Amod 25(4) uchod:

(a) rhaid penderfynu swm y Taliad Adnewyddu (yn ôl yr angen) yn unol ag Adran 21(2) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau; a

(b) bydd canran y refeniw cymwys yn cael ei phennu yn unol ag Adran 217(3) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau.

(6) Pan fydd y Trwyddedai'n derbyn penderfyniad Ofcom o dan Amod 25(4) uchod, byddant yn rhoi gwybod i Ofcom eu bod yn derbyn ac, yn amodol ar Amod 25(3) uchod, bydd Ofcom yn caniatáu adnewyddu'r Drwydded cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl hynny, ond ni fydd Ofcom yn caniatáu adnewyddiad fwy na deunaw mis cyn diwedd y Cyfnod Trwyddedu.

(7) Os adnewyddir y Drwydded yn unol â'r Amod hwn, bydd yn parhau mewn grym ac effaith lawn a bydd Amodau 5 a 34 yn cael effaith yn ystod y Cyfnod Adnewyddu fel pe bai:

(a) cyfeiriadau at swm y Bid Ariannol yn cyfeirio at swm y Taliad Adnewyddu, mewn perthynas â'r flwyddyn galendr gyflawn gyntaf sy'n dod o fewn y Cyfnod Adnewyddu;

(b) cyfeiriadau at swm y Bid Ariannol fel y'i cynyddwyd gan y Ganran Briodol yn cyfeirio at swm y Taliad Adnewyddu fel y'i cynyddwyd gan y Ganran Briodol, mewn perthynas â phob blwyddyn ddilynol sy'n dod yn gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn y Cyfnod Adnewyddu; a

(c) chyfeiriadau at Ganran Berthnasol Refeniw Cymwys yn cyfeirio at ganran y refeniw cymwys a bennir gan Ofcom o dan Amod 25(4) uchod, mewn perthynas â phob cyfnod cyfrifyddu ar gyfer y Trwyddedai sy'n dod o fewn y Cyfnod Adnewyddu;

ar yr amod, er bod adnewyddu, y bydd y Trwyddedai'n parhau i dalu swm y Bid Ariannol (neu, os yw'r Drwydded eisoes wedi'i hadnewyddu, y Taliad Adnewyddu presennol) fel y'i cynyddwyd gan y Ganran Briodol am y flwyddyn dan sylw drwy randaliadau cyfartal.

## 26. Cystadleuaeth Deg ac Effeithiol

### *Adran 316 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau*

(1) Bydd y Trwyddedai yn:

(a) peidio â gwneud na chynnal unrhyw drefniant, na chymryd rhan mewn unrhyw ymarfer, sy'n niweidiol i gystadleuaeth deg ac effeithiol wrth ddarparu gwasanaethau trwyddedig neu wasanaethau cysylltiedig; a

(b) chydymffurfio ag unrhyw god neu ganllawiau sydd am y tro yn cael eu cymeradwyo gan Ofcom er mwyn sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol wrth ddarparu gwasanaethau trwyddedig neu wasanaethau cysylltiedig; ac

(c) yn cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd a roddir gan Ofcom i'r Trwyddedai at y diben hwnnw.

(2) Yn yr Amod 26 hwn, mae gan "**wasanaethau cysylltiedig**" a "gwasanaeth trwyddedig" yr un ystyr a roddir iddynt yn Adran 316(4) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau.

## 27. Cydymffurfio â Chyfyngiadau ar Berchnogaeth

### *Adran 5(1) a (2) o Ddeddf 1990*

(1) Bydd y Trwyddedai yn cydymffurfio ym mhob ffordd â'r cyfyngiadau a'r gofynion a osodir arnynt gan neu o dan Atodlen 2 i Ddeddf 1990 ac Atodlen 14 i'r Ddeddf Cyfathrebiadau i'r graddau y mae gofynion o'r fath yn berthnasol iddynt.

(2) Bydd y Trwyddedai yn cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd gan Ofcom sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo gymryd, neu drefnu i gymryd, unrhyw gamau a bennir gan Ofcom at ddibenion cydymffurfio â'r gofynion y cyfeirir atynt yn Amod 27(1) uchod.

(3) Bydd y Trwyddedai yn rhoi gwybod i Ofcom am unrhyw amgylchiadau neu ddigwyddiadau a fyddai'n arwain at dorri rhwymedigaethau'r Trwyddedai a osodwyd arnynt gan neu o dan Atodlen 2 i Ddeddf 1990, neu dorri gofynion Atodlen 14 i'r Ddeddf Cyfathrebiadau ar unwaith ar ôl dod yn ymwybodol o amgylchiadau neu ddigwyddiadau o'r fath.

## 28. Trosglwyddo'r Drwydded

### *Adrannau 3(6) a (7) o Ddeddf 1990*

Ni ellir trosglwyddo'r Drwydded hon ac eithrio gyda chaniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan Ofcom. Heb amharu ar gyffredinolrwydd yr uchod, ni roddir caniatâd o'r fath oni bai fod Ofcom yn fodlon fod yr unigolyn neu'r unigolion y bwriedir trosglwyddo'r Drwydded iddynt mewn sefyllfa i gydymffurfio â holl Amodau'r drwydded tra bydd yn parhau mewn grym.

## 29. Cydymffurfio

### *Adrannau 4(1)(a) a 4(2) o Ddeddf 1990 ac Adrannau 335 a 336 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau*

(1) Bydd y Trwyddedai yn cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd a roddir iddynt gan Ofcom mewn perthynas ag unrhyw fater, pwnc neu beth y mae'r cyfarwyddyd ym marn Ofcom yn briodol, gan ystyried unrhyw ddyletswyddau sydd neu y gellir eu gosod arno, neu ar y Trwyddedai gan neu o dan Ddeddf 1990, Deddf 1996, y Ddeddf Cyfathrebiadau neu unrhyw Rwymedigaethau Rhyngwladol Perthnasol a'r holl godau a chanllawiau perthnasol.

### *Adran 4(1)(a), (c) a (d) o Ddeddf 1990 ac Adrannau 321(4), 325(1) a 335 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau ac Erthygl 10 y Confensiwn Ewropeaidd ar Deledu Trawsffiniol*

(2) Bydd y Trwyddedai'n mabwysiadu gweithdrefnau ac yn sicrhau bod gweithdrefnau o'r fath yn cael eu dilyn gan y rheini sy'n ymwneud â darparu'r Gwasanaeth Channel 3

Rhanbarthol, at ddibenion sicrhau bod rhaglenni sydd wedi'u cynnwys yn y Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol yn cydymffurfio ym mhob agwedd â darpariaethau'r Drwydded hon, Deddf 1990, Deddf 1996, y Ddeddf Cyfathrebiadau, Rhwymedigaethau Rhyngwladol Perthnasol a'r holl godau a chanllawiau perthnasol. Bydd y Trwyddedai, heb amharu ar gyffredinolrwydd yr uchod, yn sicrhau:

(a) bod digon o bobl yn ymwneud â darparu'r Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol sy'n gyfarwydd iawn â gofynion y Drwydded hon, Deddf 1990, Deddf 1996, y Ddeddf Cyfathrebiadau, y Rhwymedigaethau Rhyngwladol Perthnasol a'r holl godau a chanllawiau perthnasol a bod pobl o'r fath yn gallu sicrhau eu bod yn cydymffurfio â gofynion o'r fath o ddydd i ddydd;

(b) bod trefniadau digonol yn bodoli ar gyfer gweithredu ar unwaith unrhyw gyfarwyddiadau cyffredinol a phenodol y gall Ofcom eu rhoi i'r Trwyddedai o bryd i'w gilydd;

(c) os yw Amod 14(B) yn gymwys, y cydymffurfir â gofynion y Confensiwn Ewropeaidd ar Deledu Trawsffiniol lle bo hynny'n ymarferol, gan roi sylw i'r darpariaethau a nodir yn Erthygl 10 o'r Cytuniad ac unrhyw ganllawiau a gyhoeddir ac a ddiwygir o bryd i'w gilydd gan Ofcom er mwyn rhoi'r darpariaethau hynny ar waith;

### *Erthyglau 16, 17 a 18 o'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol ac Adran 336 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau*

(cc) cydymffurfir â'r cwotâu a nodir yn Erthyglau 16(1) a (2), 17 a 18 o'r Gyfarwyddeb Gwasanaethau Cyfryngau Clyweledol lle bo hynny'n ymarferol;

(d) bod trefniadau digonol yn bodoli ar gyfer clirio hysbysebion o'r mathau hynny ymlaen llaw ac ar gyfer y cynhyrchion hynny y bydd Ofcom yn penderfynu arnynt;

(e) ym mhob adran o'r Trwyddedai, pan fydd unrhyw un o'r gweithdrefnau y cyfeirir atynt yn yr Amod hwn yn cael eu gweithredu, bod yr aelod o staff sy'n gyfrifol mewn rôl digon uchel i sicrhau gweithredu ar unwaith ac y gellir dod â materion sy'n ymwneud â chydymffurfio, lle bo angen, yn uniongyrchol gerbron uwch reolwyr i'w hystyried.

(3) Bydd y Trwyddedai yn rhoi manylion i Ofcom am y gweithdrefnau (ac unrhyw ddiwygiadau i weithdrefnau o'r fath) a fabwysiadwyd ganddynt ac y mae'n rhaid iddynt gael eu harsylwi gan y rheini sy'n ymwneud â darparu'r Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol at ddibenion Amod 29(2) uchod.

### *Adran 335(4) o’r Ddeddf Cyfathrebiadau*

(4) At ddibenion yr Amod hwn ac Adran 335 o’r Ddeddf Cyfathrebiadau, mae holl Amodau’r Drwydded hon sydd wedi’u cynnwys yn rhinwedd Rhan 3, Pennod 4 (Darpariaethau Rheoleiddio) o’r Ddeddf Cyfathrebiadau, yn ychwanegol at unrhyw Amodau sydd wedi’u cynnwys yn rhinwedd Adran 335 o’r Ddeddf Cyfathrebiadau (Amodau sy’n sicrhau cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau rhyngwladol), ac yn cael effaith yn ddarostyngedig i’r Amodau hyn.

### *Adran 4(1)(c) o Ddeddf 1990*

(5) Bydd y Trwyddedai yn cyflenwi i Ofcom ddata ar ôl darlledu mewn perthynas â’r holl raglenni sydd wedi’u cynnwys yn y Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol sy’n ymdrin â gwybodaeth o’r fath ac ar unrhyw ffurf y bydd Ofcom yn ei phennu, i’w darparu i Ofcom cyn gynted ag y bydd y rhaglenni y maent yn ymwneud â nhw yn cael eu darlledu, fel y bydd Ofcom yn ei fynnu.

### *Adran 4(1)(c) o Ddeddf 1990*

(6) Bydd y Trwyddedai yn cyflenwi i Ofcom unrhyw ddata perfformiad technegol y bydd Ofcom yn gofyn amdano o bryd i’w gilydd, ac ar ba adegau ac ar ba ffurf bynnag a bennir gan Ofcom.

### *Adran 4(1)(d) o Ddeddf 1990*

(7) Bydd y Trwyddedai, os gofynnir iddo wneud hynny gan Ofcom, ar ba bynnag gyfnodau ac adegau y bydd Ofcom yn gofyn, yn mynychu cyfarfodydd gydag Ofcom ac (os bydd Ofcom yn mynnu hynny) gyda deiliaid trwyddedau Channel 3 rhanbarthol eraill, er mwyn galluogi Ofcom i gynnal adolygiadau cyfnodol o berfformiad y Trwyddedai o’i rwymedigaethau o dan y Drwydded a pherfformiad deiliaid trwyddedau Channel 3 rhanbarthol eraill o’u rhwymedigaethau o dan eu trwyddedau perthnasol.

## 30. Cyfarwyddiadau a Sylwadau’r Llywodraeth

### *Adrannau 335 a 336 o’r Ddeddf Cyfathrebiadau*

(1) Bydd y Trwyddedai, os cyfarwyddir hynny gan Ofcom:

(a) yn cynnwys yn y Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol, ar unrhyw adegau a bennir i Ofcom gan yr Ysgrifennydd Gwladol neu unrhyw un o Weinidogion eraill y Goron, unrhyw gyhoeddiad a bennir gan hysbysiad a roddir yn unol ag Adran 336(1) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau; neu

(b) yn ymatal rhag cynnwys yn y rhaglenni sydd wedi’u cynnwys yn y Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol, unrhyw fater neu ddisgrifiad o fater a bennir i Ofcom

gan yr Ysgrifennydd Gwladol drwy hysbysiad a roddir yn unol ag Adran 336(5) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau.

(2) Caiff y Trwyddedai, wrth gynnwys cyhoeddiad yng Ngwasanaeth Rhanbarthol Channel 3 yn unol ag Amod 30(1)(a) uchod, nodi bod y cyhoeddiad yn cael ei wneud yn unol â chyfarwyddyd gan Ofcom.

(3) Bydd y Trwyddedai yn cydymffurfio â holl amodau perthnasol y Drwydded hon ac unrhyw gyfarwyddiadau a roddir iddynt gan Ofcom yn unol â hysbysiad i Ofcom gan yr Ysgrifennydd Gwladol, er mwyn galluogi Llywodraeth Ei Fawrhydi yn y Deyrnas Unedig i roi effaith i unrhyw rwymedigaethau rhyngwladol sydd gan y Deyrnas Unedig.

(4) Lle mae Ofcom:

(a) wedi rhoi cyfarwyddyd i'r Trwyddedai i'r perwyl y cyfeirir ato yn Amod 30(1)(b) uchod; neu

(b) o ganlyniad i ddirymiad yr Ysgrifennydd Gwladol o'r hysbysiad sy'n arwain at ddyroddi cyfarwyddyd o'r fath, wedi dirymu'r cyfarwyddyd hwnnw neu pan fo hysbysiad o'r fath wedi dod i ben,

caiff y Trwyddedai gynnwys yn y Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol gyhoeddiad ynghylch rhoi neu ddirymu'r cyfarwyddyd neu ddod â'r hysbysiad i ben, yn ôl y digwydd.

## 31. Cwynion Safonau

### *Adrannau 325(1)(b) a 328(1) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau*

(1) Bydd y Trwyddedai'n sicrhau bod gweithdrefnau sy'n dderbyniol i Ofcom ar gyfer trin a datrys Cwynion Safonau mewn perthynas â rhaglenni sydd wedi'u cynnwys yn y Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol yn cael eu sefydlu a'u cynnal, a bydd yn sicrhau bod gweithdrefnau o'r fath yn cael eu dilyn yn briodol.

(2) Bydd y Trwyddedai yn cadw cofnod ysgrifenedig am gyfnod sydd o leiaf 12 mis, o unrhyw gwynion y cyfeirir atynt yn Amod 31(1) uchod, a chofnod ysgrifenedig o unrhyw ymateb a roddir gan y Trwyddedai mewn perthynas ag unrhyw gŵyn o'r fath a bydd yn sicrhau bod cofnodion o'r fath ar gael i Ofcom ar unrhyw adegau sy'n rhesymol i Ofcom ofyn amdanynt.

## 32. Cwynion Tegwch a Phreifatrwydd

### *Adrannau 115 ac 119 Deddf 1996 (gweler hefyd Adran 327 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau)*

(1) Bydd y Trwyddedai yn cydymffurfio â chyfarwyddiadau a cheisiadau o'r fath am wybodaeth y gall Ofcom eu rhoi iddynt ar ôl derbyn copi o gŵyn tegwch gan Ofcom sy'n ymwneud â darparu'r Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol, ac yn benodol bydd y Trwyddedai, os gofynnir am hynny:

(a) yn darparu recordiad sain a llun i Ofcom o'r rhaglen, neu unrhyw ran benodol ohoni, y mae'r gŵyn yn ymwneud â hi os ac i'r graddau y mae recordiad o'r fath yn eu meddiant;

(b) gwneud trefniadau addas i alluogi'r achwynydd i weld unrhyw recordiad o'r fath, neu unrhyw ran benodol ohono, y mae'r gŵyn yn ymwneud ag ef os ac i'r graddau y mae recordiad o'r fath yn eu meddiant;

(c) darparu i Ofcom a'r achwynydd, drawsgrifiad o rywfaint o'r rhaglen, neu unrhyw ran benodol ohoni, y mae'r gŵyn yn ymwneud â hi, fel y mae'n cynnwys lleferydd, os ac i'r graddau y mae'r Trwyddedai'n gallu gwneud hynny;

(d) darparu i Ofcom a'r achwynydd, gopïau o unrhyw ddogfennau sydd ym meddiant y Trwyddedai sy'n gopïau gwreiddiol neu'n gopïau o unrhyw ohebiaeth rhwng y Trwyddedai a'r sawl yr effeithir arno, neu'r achwynydd mewn cysylltiad â'r gŵyn;

(e) darparu i Ofcom unrhyw bethau eraill y gallai Ofcom eu nodi neu eu disgrifio ac sy'n ymddangos i Ofcom eu bod yn berthnasol i'w ystyriaeth o'r gŵyn ac sydd ym meddiant y Trwyddedai;

(f) rhoi datganiad ysgrifenedig i Ofcom a'r achwynydd mewn ymateb i'r achwynydd;

(g) mynd i Ofcom a'i helpu i ystyried y gŵyn; a

(h) chymryd unrhyw gamau y gallant eu cymryd yn rhesymol i sicrhau y cydymffurfir ag unrhyw gais a wneir gan Ofcom i unrhyw unigolyn arall o dan Adran 115(7) o Ddeddf 1996.

### *Adrannau 119 ac 120 o Ddeddf 1996 (gweler hefyd Adran 327 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau)*

(2) Bydd y Trwyddedai yn cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddir iddynt gan Ofcom i gyhoeddi, mewn unrhyw fodd, ac o fewn unrhyw gyfnod a bennir gan Ofcom, mewn

unrhyw gyfarwyddyd a roddir yn unol ag Adran 119(1) o Ddeddf 1996, grynodeb o unrhyw gŵyn tegwch mewn perthynas â rhaglen a gynhwysir yn y Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol, ynghyd â chanfyddiadau Ofcom ynghylch y gŵyn neu grynodeb o'r cyfryw ganfyddiad. Bydd ffurf a chynnwys unrhyw grynodeb o'r fath yn gyfryw ag y gall Ofcom ei gymeradwyo.

(3) Bydd cyfeiriadau yn Amod 32(2) at gyhoeddi unrhyw fater yn gyfeiriadau at gyhoeddi'r mater hwnnw heb unrhyw sylwadau yn dod gydag ef gan unigolyn ar wahân i Ofcom ac sy'n ymwneud â'r gŵyn tegwch.

(4) Pan fydd Ofcom wedi rhoi cyfarwyddyd o dan Adran 119(1) mewn perthynas â chwyn tegwch a naill ai bod y Trwyddedai a/neu unrhyw unigolyn arall sy'n gyfrifol am wneud neu ddarparu'r rhaglen berthnasol, yn cymryd neu wedi cymryd unrhyw gamau atodol (a ddehonglir yn unol ag Adran 120(5) o Ddeddf 1996), bydd y Trwyddedai'n anfon adroddiad am y camau hynny at Ofcom yn ddi-oed.

### *Adran 326 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau*

(5) Bydd y Trwyddedai'n sicrhau y cedwir at ddarpariaethau'r Cod Tegwch yn narpariaeth y Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol ac mewn perthynas â'r rhaglenni sydd wedi'u cynnwys yn y Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol:

## 33. Cyhoeddi Swyddogaethau Ofcom

### *Adran 328 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau*

Bydd y Trwyddedai yn cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddir iddynt gan Ofcom i sicrhau:

(a) bod y gweithdrefnau sy'n cael eu sefydlu a'u cynnal ar gyfer trin a datrys cwynion am gadw at safonau fel y nodir yn Adran 319 y Ddeddf Cyfathrebiadau; a

(b) swyddogaethau Ofcom o dan Ran V o Ddeddf 1996 mewn perthynas â'r Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol,

yn cael eu dwyn i sylw'r cyhoedd (boed drwy gyfrwng darllediadau neu fel arall).

## 34. Pŵer Ofcom i Amrywio Amodau Trwydded

### *Adran 3(4) a (5) o Ddeddf 1990*

Caiff Ofcom, drwy hysbysiad a gyflwynir i'r Trwyddedai:

(a) amrywio’r Cyfnod Trwyddedu ar yr amod bod y Trwyddedai’n cydsynio i amrywiad o’r fath (heb amharu ar bwerau a dyletswyddau Ofcom o dan Adran 41 o Ddeddf 1990);

### *Adran 352 o’r Ddeddf Cyfathrebiadau*

(b) amrywio’r Drwydded yn unol ag Adran 352(10) o’r Ddeddf Cyfathrebiadau ar yr amod bod y Trwyddedai wedi cael cyfle rhesymol i gyflwyno sylwadau i Ofcom ynghylch yr amrywiad arfaethedig;

(c) pan fydd y Trwyddedai’n cytuno i ddarparu’r Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol dros dro ar gyfer ardal ychwanegol a bennir o dan Adran 14(2) o Ddeddf 1990 yn unol ag Adran 22 o’r Ddeddf, amrywio’r Drwydded i awdurdodi darparu’r Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol ar gyfer yr ardal ychwanegol dan sylw, yn ystod unrhyw gyfnod y bydd yn penderfynu arno;

(d) amrywio’r Drwydded mewn unrhyw fodd nad yw wedi’i grybwyll ym mharagraffau (a), (b) ac (c) uchod ar yr amod bod y Trwyddedai wedi cael cyfle rhesymol i gyflwyno sylwadau i Ofcom ynghylch yr amrywiad arfaethedig,

ar yr amod bob amser na fydd paragraffau (a) i (c) uchod yn awdurdodi amrywio Amod 5 i’r graddau y mae’r Amod hwnnw yn ei gwneud yn ofynnol i’r Trwyddedai dalu i Ofcom am:-

(i) (mewn perthynas â'r flwyddyn galendr gyflawn gyntaf yn dod o fewn y Cyfnod Trwyddedu) swm y Bid Ariannol;

(ii) (mewn perthynas â phob blwyddyn ddilynol sy’n dod yn gyfan gwbl neu’n rhannol yn y Cyfnod Trwyddedu) swm y Bid Ariannol fel y’i cynyddwyd gan y Ganran Briodol; ac

(iii) (mewn perthynas â phob cyfnod cyfrifyddu’r Trwyddedai) y Ganran Berthnasol o Refeniw Cymwys.

## 35. Hysbysiadau a Gwasanaeth

### *Adran 394 o’r Ddeddf Cyfathrebiadau*

(1) Gellir cyflwyno unrhyw hysbysiad neu ddogfen (fel y’i diffinnir yn Adran 394(9) o’r Ddeddf Cyfathrebiadau) sydd i’w chyflwyno, ei rhoi neu ei hanfon o dan neu mewn perthynas â’r Drwydded hon, i’r parti sydd i’w derbyn neu ei hanfon drwy bost dosbarth cyntaf atynt yn eu cyfeiriad priodol (fel y’i diffinnir yn Adran 394(7) o’r Ddeddf Cyfathrebiadau) neu ei gadael yn y cyfeiriad hwnnw.

(2) Ystyrir bod unrhyw hysbysiad neu ddogfen o’r fath wedi’i chyflwyno:

(a) os yw'n cael ei danfon neu ei gadael felly, ar adeg ei danfon neu ei gadael; neu

(b) os yw'n cael ei phostio felly, am 10.00 a.m. ar yr ail ddiwrnod busnes ar ôl ei rhoi yn y post.

(3) Wrth brofi gwasanaeth o'r fath, bydd yn ddigon i brofi bod y danfoniad wedi'i wneud neu fod yr amlen sy'n cynnwys hysbysiad neu ddogfen o'r fath wedi'i chyfeirio'n briodol a'i phostio fel llythyr dosbarth cyntaf rhagdaledig neu wedi'i gadael yn y cyfeiriad cywir, yn ôl fel y digwydd.

### *Adran 395 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau*

(4) Gall Ofcom hefyd gyflwyno neu roi hysbysiadau a dogfennau i'r Trwyddedai a gan y Trwyddedai ar neu i Ofcom ar ffurf electronig, yn amodol ar y gofynion a nodir yn Adrannau 395 a 396 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau.

## 36. Cyfle Cyfartal a Hyfforddiant

### *Adran 337 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau*

(1) Bydd y Trwyddedai'n gwneud trefniadau ac yn eu hadolygu o bryd i'w gilydd ar gyfer y canlynol:

(a) hyrwyddo, mewn perthynas â chyflogaeth gyda'r Trwyddedai:

(i) cyfle cyfartal rhwng dynion a menywod a rhwng pobl o wahanol grwpiau hil; a

(ii) chydraddoli cyfleoedd ar gyfer pobl anabl; a

(b) hyfforddi ac ailhyfforddi unigolion y maent yn eu cyflogi i ddarparu'r Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol, neu mewn cysylltiad â hynny, neu wneud rhaglenni i'w cynnwys yn y Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol.

(2) Bydd y Trwyddedai'n cymryd camau priodol i sicrhau bod y rheini y mae'r trefniadau i'w gwneud yn unol ag Amod 36 (1) yn ymwybodol ohonynt, gan gynnwys cyhoeddi'r trefniadau yn y modd sy'n ofynnol gan Ofcom.

(3) Yn benodol (ond heb gyfyngu ar gyffredinolrwydd yr uchod), bydd y Trwyddedai o bryd i'w gilydd (ac o leiaf bob blwyddyn) yn cyhoeddi, yn y modd sy'n briodol yn barn nhw, eu sylwadau ar weithrediad ac effeithiolrwydd cyfredol y trefniadau sy'n ofynnol yn rhinwedd yr Amod hwn.

(4) Wrth wneud ac adolygu'r trefniadau a wneir yn unol ag Amod 36 (1), bydd y Trwyddedai'n ystyried unrhyw ganllawiau perthnasol a gyhoeddir gan Ofcom fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.

(5) Bydd yr Amod hwn 36 yn berthnasol os yw gofynion Adrannau 337(7) ac (8) o'r Ddeddf Cyfathrebiadau wedi'u bodloni yn achos y Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol.

(6) Bydd Ofcom yn trin rhwymedigaethau'r Trwyddedai o dan Amodau 36(1) i (5) uchod fel rhai a gyflawnir pan fydd aelod o grŵp o gwmnïau y mae'r Trwyddedai'n perthyn iddynt wedi cyflawni'r rhwymedigaethau hynny mewn perthynas â chyflogaeth gyda'r Trwyddedai.

# RHAN 3: EITHRIADAU A CHYFYNGIADAU AR RWYMEDIGAETHAU'R TRWYDDEDAI

## 38. Force Majeure

### *Adran 4(1)(d) o Ddeddf 1990*

Ni fydd y Trwyddedai yn gyfrifol mewn unrhyw ffordd am fethiant i gydymffurfio ag unrhyw Amodau o'r Drwydded hon a achosir gan neu sy'n deillio yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o unrhyw amgylchiadau sydd y tu hwnt i reolaeth resymol y Trwyddedai, gan gynnwys (heb gyfyngiad) rhyfel, difrod gan elynion y Brenin, terfysgaeth, terfysg, gwrthryfel, helynt sifil, ymyrraeth gan streiciau, cyflogwr yn cau gweithle, protest mewn adeilad, picedu neu anghydfod diwydiannol neu weithredu diwydiannol arall.

# RHAN 4: AMODAU YNGHYLCH GORFODI'R DRWYDDED

## 39. Cosbau am Dorri Amod

### *Adran 40 o Ddeddf 1990 (gweler hefyd Adran 344 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau)*

(1)

(a) Os yw Ofcom yn fodlon bod y Trwyddedai wedi methu â chydymffurfio ag unrhyw un o Amodau'r Drwydded a bod modd cywiro'r methiant yn briodol drwy gynnwys cywiriad neu ddatganiad o ganfyddiadau yn y Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol (neu'r ddau), a bod Ofcom wedi rhoi cyfle rhesymol i'r Trwyddedai gyflwyno sylwadau iddo am y materion y cwynir amdanynt, caiff Ofcom gyfarwyddo'r Trwyddedai i gynnwys yn y Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol gywiriad neu ddatganiad o ganfyddiadau (neu'r ddau) ar unrhyw ffurf, ac ar unrhyw adegau y bydd Ofcom yn penderfynu arnynt.

(b) Gall y Trwyddedai, wrth gynnwys cywiriad neu ddatganiad o ganfyddiadau (neu'r ddau) yn y Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol yn unol â chyfarwyddyd gan Ofcom, gyhoeddi eu bod yn gwneud hynny yn unol â chyfarwyddyd.

(2) Bydd y Trwyddedai yn cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd gan Ofcom i beidio â chynnwys yn y Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol, ar unrhyw bryd yn y dyfodol, unrhyw raglen y mae ei chynnwys yn y Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol, y mae Ofcom yn fodlon ei bod wedi ymwneud â methiant gan y Trwyddedai i gydymffurfio ag unrhyw un o Amodau'r Drwydded hon.

### *Adran 41 o Ddeddf 1990 (gweler hefyd baragraff 3 o Ran 1 o Atodlen 13 i'r Ddeddf Cyfathrebiadau)*

(3)

(a) Os yw Ofcom yn fodlon bod y Trwyddedai wedi methu â chydymffurfio ag un o Amodau'r Drwydded neu wedi methu â chydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddyd a roddwyd gan Ofcom o dan y Drwydded, a'i fod wedi rhoi cyfle rhesymol iddynt gyflwyno sylwadau iddo am y materion y cwynir amdanynt, caiff gyflwyno hysbysiad i'r Trwyddedai yn ei gwneud yn ofynnol iddo dalu i Ofcom, o fewn cyfnod penodedig, gosb ariannol benodedig.

(b) Ni fydd swm unrhyw gosb ariannol a osodir yn unol ag Amod 39(3)(a) yn fwy na 5 y cant o refeniw cymwys y Trwyddedai am ei gyfnod cyfrifyddu cyflawn diwethaf (fel y'i pennir yn unol ag Adran 19(2) i (6) o Ddeddf 1990 a Rhan 1 o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno) sy'n dod o fewn y cyfnod y mae trwydded y Trwyddedai wedi bod mewn grym (y "**cyfnod perthnasol**").

(c) Pan fydd unrhyw gosb o’r fath yn cael ei gosod pan nad yw cyfnod cyfrifyddu cyflawn cyntaf y Trwyddedai sy’n dod o fewn y cyfnod perthnasol wedi dod i ben eto pan roddir y gosb, ni fydd cosb ariannol o’r fath yn fwy na 5 y cant o’r swm y mae Ofcom yn amcangyfrif yw refeniw cymwys y Trwyddedai ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu hwnnw.

### *Adran 102 o Ddeddf 1996*

(4)

(a) Os bydd Ofcom:

(i) yn fodlon bod y Trwyddedai wedi methu â chydymffurfio ag Amod 18(2) neu Amod 18(6); ac

(ii) ddim yn fodlon y byddai’n afresymol disgwyl i’r Trwyddedai gydymffurfio â’r Amod hwnnw yn yr holl amgylchiadau,

gall gyflwyno hysbysiad i’r Trwyddedai yn datgan y bydd yn rhaid iddynt dalu cosb ariannol benodedig, o fewn cyfnod penodedig, i Ofcom.

(b) Os yw Ofcom yn fodlon, mewn cysylltiad â chais am ganiatâd o dan Amod 18(2) neu Amod 18(6), bod y Trwyddedai:

(i) wedi rhoi gwybodaeth anwir i Ofcom mewn manylyn perthnasol, neu

(ii) wedi dal unrhyw wybodaeth berthnasol yn ôl gyda’r bwriad o achosi i Ofcom gael ei gamarwain,

gall gyflwyno hysbysiad i’r Trwyddedai yn datgan y bydd yn rhaid iddynt dalu cosb ariannol benodedig, o fewn cyfnod penodedig, i Ofcom.

(c) Ni fydd swm unrhyw gosb ariannol a osodir yn unol ag Amod 39(4)(a) neu Amod 39(4)(b) yn fwy na'r swm a gynhyrchir drwy luosi'r gydnabyddiaeth berthnasol â'r lluosydd rhagnodedig.

(d) At ddiben Amod 39(4)(c):

(i) mae’r “**ystyriaeth berthnasol**” yn golygu swm y mae Ofcom wedi penderfynu ei fod yn cynrychioli cymaint o unrhyw gydnabyddiaeth a dalwyd gan y Trwyddedai ag y gellir ei briodoli i gaffael yr hawliau i ddarlledu’r digwyddiad dan sylw; a

(ii) ystyr “**lluosydd rhagnodedig**” yw unrhyw nifer a bennir gan yr Ysgrifennydd Gwladol o bryd i'w gilydd drwy orchymyn o dan Adran 102(4)(b) o Ddeddf 1996.

(e) Pan fydd unrhyw gosb ariannol o'r fath yn cael ei gosod yn unol ag Amod 39(4), ni fydd Ofcom yn gosod cosb ariannol arall o dan Amod 39(3) mewn perthynas â'r un amgylchiadau.

### *Adran 41(1)(b) a (3) o Ddeddf 1990*

(5) Os yw Ofcom yn fodlon bod y Trwyddedai wedi methu â chydymffurfio ag unrhyw un o Amodau'r Drwydded hon neu unrhyw gyfarwyddyd a roddwyd iddynt drwy hyn, a'i fod wedi rhoi cyfle rhesymol iddynt gyflwyno sylwadau iddo am y materion y cwynir amdanynt, caiff gyflwyno hysbysiad i'r Trwyddedai yn lleihau'r Cyfnod Trwyddedu am gyfnod penodedig, nad yw'n fwy na dwy flynedd.

### *Adran 41(4) o Ddeddf 1990*

(6) Pan fo'r Drwydded i ddod i ben ar ddyddiad penodol yn rhinwedd hysbysiad a gyflwynir i'r Trwyddedai o dan Amod 39(5), caiff Ofcom, ar gais y Trwyddedai, drwy hysbysiad pellach a gyflwynir iddynt ar unrhyw adeg cyn y dyddiad hwnnw, ddirymu'r hysbysiad hwnnw os yw'n fodlon bod modd cyfiawnhau'r cyfryw ddirymiad yn rhinwedd ymddygiad y Trwyddedai mewn perthynas â gweithredu'r Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol ers dyddiad yr hysbysiad cynharach.

(7) Ni fydd unrhyw arferiad gan Ofcom o'i bwerau o dan Amod 39(3), (5) a (6) yn amharu ar bwerau Ofcom o dan Amod 39(1) a 39(2).

(8) Ni fydd unrhyw arferiad gan Ofcom o'i bwerau o dan Amod 39(4) yn amharu ar bwerau Ofcom o dan Amod 39(1), (2) (5) a (6).

(9) Cyn arfer ei bwerau o dan Amod 39(4) mewn perthynas â methiant i gydymffurfio ag Amod 18(6), bydd Ofcom yn ymgynghori â'r bobl hynny (a all gynnwys awdurdodau cymwys mewn Gwladwriaethau AEE eraill) sy'n ymddangos i Ofcom yn briodol.

## 40. Dirymu

### *Adran 42 o Ddeddf 1990*

(1)

(a) Os yw Ofcom yn fodlon bod y Trwyddedai'n methu â chydymffurfio ag unrhyw un o Amodau'r Drwydded neu ag unrhyw gyfarwyddyd o dan y Drwydded a bod y methiant hwnnw'n golygu, os na chaiff ei unioni, y byddai'n cyfiawnhau dirymu'r Drwydded, bydd yn cyflwyno hysbysiad i'r Trwyddedai:

(i) yn datgan bod Ofcom yn fodlon â hynny;

(ii) yn nodi ym mha ffyrdd y mae'r Trwyddedai, ym marn Ofcom, yn methu â chydymffurfio ag unrhyw Amod neu gyfarwyddyd o'r fath; ac

(iii) yn datgan, oni bai fod y Trwyddedai'n cymryd, o fewn y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad, y cyfryw gamau i unioni'r methiant a nodir felly, yn dirymu'r Drwydded.

(b) Ar ddiwedd y cyfnod a bennir mewn unrhyw hysbysiad a gyflwynir o dan Amod 40(1)(a) uchod, os yw Ofcom yn fodlon bod y Trwyddedai wedi methu â chymryd y camau a nodwyd yn yr hysbysiad a bod angen, er budd y cyhoedd, dirymu'r drwydded, bydd Ofcom yn cyflwyno hysbysiad i'r Trwyddedai yn dirymu'r Drwydded.

(2) Gall Ofcom ddirymu'r Drwydded drwy hysbysiad ysgrifenedig a gyflwynir i'r Trwyddedai, ac a fydd yn dod i rym naill ai ar adeg cyflwyno neu ar ddyddiad a bennir yn yr hysbysiad, mewn unrhyw un o'r amgylchiadau canlynol:

*Adran 5(1)(a), (5) a (7) o Ddeddf 1990*

(a) os bydd y Trwyddedai'n dod yn unigolyn wedi'i anghymhwyso mewn perthynas â'r Drwydded yn rhinwedd Rhan II o Atodlen 2 i Ddeddf 1990, neu fel arall yn methu â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad a osodir ar ddeiliaid trwyddedau Channel 3 rhanbarthol, neu mewn perthynas â nhw, gan neu o dan Atodlen 14 i'r Ddeddf Cyfathrebiadau;

*Adran 4(5)(b) a 42(5) o Ddeddf 1990*

(b) os yw Ofcom yn fodlon bod y Trwyddedai:

(i) gan honni cydymffurfio ag unrhyw un o Amodau'r Drwydded hon, wedi darparu gwybodaeth sy'n ffug mewn manylyn perthnasol neu sydd wedi dal unrhyw wybodaeth berthnasol yn ôl gyda'r bwriad o beri i Ofcom gael ei gamarwain; neu

(ii) mewn perthynas â'i gais am drwydded Analog, ac am y rheswm y mae Ofcom wedi rhoi'r Drwydded hon, wedi rhoi gwybodaeth i'r Comisiwn Teledu Annibynnol a oedd yn anwir mewn manylyn perthnasol neu wedi dal unrhyw wybodaeth berthnasol yn ôl gyda'r bwriad o beri i'r Comisiwn Teledu Annibynnol gael ei gamarwain;

*Adran 5(5) a 5(7) o Ddeddf 1990*

(c) lle bydd y Trwyddedai'n gorff, ac os bydd newid yn natur neu nodweddion y Trwyddedai, neu unrhyw newid yn yr unigolion sydd â rheolaeth dros y Trwyddedai neu fuddiannau ynddo, neu unrhyw newid sy'n arwain at waharddiad o dan Ran II o Atodlen 2 i Ddeddf 1990 neu dorri gofyniad a osodir

gan neu o dan Atodlen 14 i’r Ddeddf Cyfathrebiadau, yn digwydd (boed hynny cyn neu ar ôl y Dyddiad Cychwyn), a bod y newid hwnnw yn golygu, os bydd yn disgyn ar Ofcom i benderfynu a ddylid dyfarnu’r Drwydded i’r Trwyddedai yn amgylchiadau newydd yr achos, byddai’n cael ei gymell gan y newid i atal dyfarnu’r Drwydded i'r Trwyddedai;

### *Adran 3(3)(b) o Ddeddf 1990*

(d) os yw Ofcom yn dod yn anfodlon bod y Trwyddedai yn berson cymwys a phriodol i ddal y Drwydded;

### *Adran 3(8) o Ddeddf 1990*

(e) os yw’r Trwyddedai’n darparu’r Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol yn gyfan gwbl neu’n rhannol tra’n methu â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad i ddal trwydded neu wedi dal trwydded ar eu rhan, o dan Adran 1 o Ddeddf Telegraffiaeth Ddi-wifr 1949 (fel y’i diwygiwyd), neu os yw’r Trwyddedai’n peidio â chydymffurfio â gofynion sy’n berthnasol i’r Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol 3 a osodwyd gan neu o dan Bennod 1 o Ran 2 o’r Ddeddf Cyfathrebiadau;

### *Adran 42(4) o Ddeddf 1990*

(f) os bydd y Trwyddedai’n rhoi’r gorau i ddarparu’r Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol cyn diwedd y Cyfnod Trwyddedu a bod Ofcom o’r farn ei bod yn briodol dirymu’r Drwydded;

### *Adran 4(1)(d) o Ddeddf 1990*

(g) os bydd Ofcom yn dirymu neilltuo’r amledd y mae’r Gwasanaeth Trwyddedig yn cael ei ddarparu arno am y tro er mwyn:

(i) cyflawni ei swyddogaethau o dan y deddfiadau sy’n ymwneud â rheoli’r sbectrwm radio fel y’i diffinnir yn Adran 405(1) o’r Ddeddf Cyfathrebiadau; neu

(ii) gydymffurfio â gorchymyn o dan Adran 156(1) o’r Ddeddf Cyfathrebiadau.

### *Adran 42(8) o Ddeddf 1990*

(3)

(a) Cyn cyflwyno unrhyw hysbysiad yn dirymu’r Drwydded o dan Amodau 40(1) a (2), bydd Ofcom yn rhoi gwybod i’r Trwyddedai am y materion sy’n sail i ddirymu’r Drwydded ac yn rhoi cyfle rhesymol i’r Trwyddedai gyflwyno sylwadau iddo am y materion hynny.

(b) Mewn achos sy'n dod o fewn Amod 40(2)(c) lle mae'r newid yn un sy'n dod o fewn Adran 5(6A) Deddf 1990, cyn cyflwyno hysbysiad yn dirymu'r drwydded, bydd Ofcom hefyd yn rhoi cyfle i'r Trwyddedai gydymffurfio â Rhan 1 o Atodlen 14 i'r Ddeddf Cyfathrebiadau o fewn cyfnod a bennir yn yr hysbysiad a ddarperir o dan Amod 40(3)(a).

### *Adran 18(3) o Ddeddf 1990 (gweler hefyd baragraff 2 o Ran 1 o Atodlen 13 i'r Ddeddf Cyfathrebiadau)*

(4)

(a) Pan fydd y Drwydded yn cael ei dirymu yn unol ag unrhyw ddarpariaeth yn Rhan I o Ddeddf 1990, neu'n cael ei thrin fel un sy'n cael ei dirymu o dan Adran 145 o Ddeddf 1996, bydd y Trwyddedai:

(i) o fewn unrhyw gyfnod y bydd Ofcom yn rhoi gwybod iddynt amdano, yn talu cosb ariannol benodedig i Ofcom; ac

(ii) yn talu cyfran y Bid Ariannol a oedd yn ddyledus (neu'r Bid Ariannol fel y'i cynyddwyd gan y Ganran Briodol) ar gyfer y flwyddyn galendr dan sylw, os o gwbl.

Ni fydd rhwymedigaeth y Trwyddedai i dalu symiau o'r fath yn cael ei heffeithio pan fydd y Drwydded yn peidio â bod mewn grym (am unrhyw reswm).

(b) Pan fydd unrhyw gosb o'r fath yn cael ei gosod cyn diwedd cyfnod cyfrifyddu cyflawn cyntaf y Trwyddedai i ddod o fewn y cyfnod y mae'r Drwydded mewn grym, y gosb uchaf a osodir fydd pa un bynnag yw'r mwyaf o'r canlynol:

(i) £500,000 (neu unrhyw swm arall y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol ei bennu drwy orchymyn o dan baragraff 9 o Ran 1 o Atodlen 13 i'r Ddeddf Cyfathrebiadau; a

(ii) 7 y cant o'r swm y mae Ofcom yn ei amcangyfrif fyddai'r refeniw cymwys (fel y'i pennir yn unol ag Adran 19(2) i (6) o Ddeddf 1990 a Rhan 1 o Atodlen 7 i'r Ddeddf honno) ar gyfer cyfnod cyfrifyddu cyflawn cyntaf y Trwyddedai o fewn y cyfnod y byddai'r Drwydded wedi bod mewn grym.

(c) Ac eithrio pan fo Amod 40(4)(b) uchod yn gymwys, pan fydd y Drwydded yn cael ei dirymu neu ei thrin fel un a ddirymir mewn unrhyw achos arall a nodir yn Amod 40(4)(a), y gosb uchaf fydd pa un bynnag yw'r mwyaf o:

(i) £500,000 (neu unrhyw swm arall y caiff yr Ysgrifennydd Gwladol ei bennu drwy orchymyn o dan baragraff 9 o Ran 1 o Atodlen 13 i'r Ddeddf Cyfathrebiadau); a

(ii) 7 y cant o’r refeniw cymwys (fel y’i pennir yn unol ag Adran 19(2) i (6) o Ddeddf 1990 a Rhan 1 o Atodlen 7 i’r Ddeddf honno) ar gyfer cyfnod cyfrifyddu cyflawn olaf y Trwyddedai sy’n dod o fewn y cyfnod y mae eu trwydded wedi bod mewn grym.

### *Adran 145 o Ddeddf 1996*

(5) Os ceir y Trwyddedai’n euog o drosedd dan Adran 144 o Ddeddf 1996 a bod y llys lle ceir y Trwyddedai’n euog yn gwneud gorchymyn yn eu gwahardd rhag dal trwydded yn ystod cyfnod a bennir yn y gorchymyn, neu os yw’r Trwyddedai wedi’i anghymhwyso rhag dal trwydded yn unol ag Adran 145(3) Deddf 1996 o ganlyniad i orchymyn yn gwahardd unigolyn rhag dal trwydded, caiff y Drwydded hon ei thrin fel pe bai wedi’i dirymu o’r adeg y daw’r gorchymyn i rym.

# ATODIAD I DRWYDDED RANBARTHOL CHANNEL 3: CYMRU

### Y Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol

## ATODIAD RHAN 1: Gofynion ar gyfer darpariaeth a chynnwys y Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol

### 1. Diffiniadau a Dehongliadau

Yn y paragraffau canlynol, oni bai fod y cyd-destun yn nodi'n wahanol:

mae "**oriau/munudau**" yn cyfeirio at nifer yr oriau/munudau fesul blwyddyn galendr neu bob wythnos ar gyfartaledd dros flwyddyn galendr a fyddai'n cael eu darlledu, yn cael eu mesur mewn "**amseroedd slot**" (hynny yw, gan gynnwys toriadau hysbysebu, rhagflasau rhaglenni a deunydd cyflwyno yn ystod ac ar ddiwedd rhaglenni) ac eithrio deunydd o dan 10 munud o hyd sy'n cael ei fesur mewn "**amseroedd rhedeg**" (hynny yw, heb doriadau hysbysebu, rhagflasau rhaglenni a deunydd cyflwyno).

### 2. Cynyrchiadau Annibynnol

Rhaid i'r Trwyddedai sicrhau bod o leiaf 25 y cant o gyfanswm yr amser a ddyrennir i ddarlledu rhaglenni cymwys yn cael ei neilltuo i amrywiaeth o gynyrchiadau annibynnol ym mhob blwyddyn galendr. Rhaid i'r ystod fod o ran cost a mathau o raglenni.

### 3. Cynyrchiadau Gwreiddiol

Rhaid i'r Trwyddedai sicrhau bod o leiaf 65 y cant yn ôl amser y rhaglenni a ddarlledir yn cael eu cynhyrchu neu eu comisiynu'n wreiddiol ar gyfer unrhyw un o'r gwasanaethau Channel 3 rhanbarthol, neu'r cyfan ohonynt, a bod o leiaf 85 y cant yn ôl amser rhaglenni yn ystod yr Oriau Gwylio Brig yn cael eu cynhyrchu neu eu comisiynu'n wreiddiol.

### 4. Newyddion

Rhaid i'r Trwyddedai ddarlledu cyfanswm o 365 awr o leiaf bob blwyddyn galendr o raglenni newyddion cenedlaethol a rhyngwladol o ansawdd uchel, rhwng 9.25 am a hanner nos, ac mae'n rhaid dangos o leiaf 125 awr yn ystod yr Oriau Gwylio Brig. Rhaid dangos rhaglenni yn achlysurol drwy gydol y dydd a rhaid dangos rhaglenni newyddion priodol ar benwythnosau yn ystod yr Oriau Gwylio Brig a thu allan i'r Oriau Gwylio Brig ac yn ystod gwyliau cyhoeddus.

### 5. Materion Cyfoes

Rhaid i'r Trwyddedai ddarlledu o leiaf 43 awr y flwyddyn galendr o raglenni materion cyfoes cenedlaethol a rhyngwladol o ansawdd uchel rhwng 9.25 am a hanner nos, ac mae'n rhaid dangos o leiaf 35 awr yn ystod yr Oriau Gwylio Brig.

## 6. Cynhyrchu yn y Gwledydd a'r Rhanbarthau

Bydd o leiaf 35 y cant o'r gwariant ar raglenni rhwydwaith gwreiddiol ym mhob blwyddyn galendr yn cael ei ddyrannu i gynhyrchu rhaglenni a gynhyrchir y tu allan i ardal yr M25 a rhaid ei gyfeirio at ystod addas o ganolfannau cynhyrchu y tu allan i ardal yr M25. Rhaid i o leiaf 35 y cant o oriau rhaglenni rhwydwaith gwreiddiol gael eu gwneud y tu allan i ardal yr M25 a byddant yn cynrychioli amrywiaeth o wahanol fathau o raglenni.

## 7. Rhaglenni Rhanbarthol

Wrth gyflawni'r gofynion a nodir yn Amod 10, bydd y Trwyddedai'n sicrhau bod rhaglenni sydd wedi'u cynnwys yng Ngwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol yn cydymffurfio â'r canlynol:

(1) Bydd y Trwyddedai'n sicrhau bod y Gwasanaeth Trwyddedig yn cynnwys y cyfanswm a nodir isod o raglenni rhanbarthol sy'n cael eu dangos am y tro cyntaf, sydd i'w darlledu rhwng 9.25am a 12.30am.

Gofynion Rhanbarthol Channel 3:

Cyfartaledd Wythnosol (oriau a munudau dros flwyddyn Galendr ac eithrio Gwyliau Banc a'r Nadolig)

Newyddion 4:00*
Arall 1:30** (lle mae materion cyfoes yn 0:47)
Cyfanswm 5:30

Sylwer: mewn perthynas â'r cwotâu a nodir uchod ar gyfer HTV Cymru, gellir ailddosbarthu hyd at 3 awr y flwyddyn (3 munud yr wythnos) rhwng newyddion ac eraill.

(*3 awr a 50 munud ar gyfartaledd dros flwyddyn Galendr lawn sy'n cynnwys Gwyliau Banc a Nadolig. Yn ystod y cyfnod hwn, gall amserlenni newyddion newid ond rhaid cynnwys bwletinau yn achlysurol yn ystod y cyfnod rhwng gwyliau Noswyl Nadolig a Dydd Calan. **Mae'n bosibl y bydd rhaglenni rhanbarthol eraill yn cael eu darparu mewn rhaglenni sydd fel arall yn cynnwys newyddion.)

(2) Wrth gyflawni'r gofynion a nodir ym mharagraff 7(1) uchod, bydd y Trwyddedai'n sicrhau:

(a) ac eithrio lle mae Gwyliau Banc a'r Nadolig yn effeithio arnynt a lle gallai newyddion byw neu ddigwyddiadau chwaraeon o bwysigrwydd cenedlaethol amharu ar batrymau newyddion yn gynnar fin nos, bod o leiaf 2 awr a 30 munud o gyfanswm y newyddion rhanbarthol yn cael eu darlledu bob wythnos, ar gyfartaledd dros flwyddyn galendr, yn ystod yr Oriau Gwylio Brig;

(b) bod o leiaf 45 munud o raglenni rhanbarthol ar wahân i newyddion yn cael eu darlledu bob wythnos ar gyfartaledd dros flwyddyn galendr, yn ystod yr Oriau Gwylio Brig; a

(c) bod o leiaf 30 munud o raglenni rhanbarthol ar wahân i newyddion yn cael eu darlledu bob wythnos ar gyfartaledd dros flwyddyn galendr, yn ystod y cyfnodau 5.00pm – 6.00pm a 10.30pm – 11.30pm.

(3) Wrth gyflawni'r gofynion a nodir ym mharagraff (7)(1) uchod, bydd y Trwyddedai'n sicrhau bod o leiaf 99 y cant o'r holl raglenni rhanbarthol sy'n cael eu darlledu yn ôl amser yn cael eu gwneud o fewn yr Ardal Drwyddedig ym mhob blwyddyn galendr.

## 8. Isdeitlo, Iaith Arwyddion a Disgrifiadau Sain

Rhaid i'r Trwyddedai sicrhau bod o leiaf 90 y cant o'r allbwn darlledu nad yw'n cael ei eithrio yn cael ei isdeitlo; bod 10 y cant yn cael disgrifiadau sain; a bod 5 y cant yn defnyddio iaith arwyddion. Rhaid i'r Trwyddedai gyflawni targedau interim o'r fath ar gyfer isdeitlau, iaith arwyddion a disgrifiadau sain a hysbysir iddo'n ysgrifenedig gan Ofcom neu a nodir yn y Cod ar Wasanaethau Mynediad Teledu.

# ATODIAD RHAN 2: Dyddiau ac amseroedd darlledu

Bydd y Gwasanaeth Channel 3 Rhanbarthol yn cael ei ddarlledu saith diwrnod yr wythnos a thrwy gydol y dydd ar wahân i'r amser rhwng 6.00am a 9.25am bob dydd.

# ATODIAD RHAN 3: Manylion Gorsafoedd Darlledu Daearol Digidol - Prif Orsafoedd a Gorsafoedd Ategol Dibynnol

## IS-RANBARTH CYMRU

### BLAENPLWYF

Aberystwyth
Afon Dyfi
Beddgelert
Cyswllt Beddgelert
Bow Street
Corris
Cwrtnewydd
Dôl-y-bont
Machynlleth
Penrhyn-coch
Trefilan
Ynys Pennal

### CARMEL

Aber-craf
Brechfa
Bronwydd Arms
Llanfair-ym-Muallt
Cil-y-cwm
Cwm-twrch
Cwm-gors
Erwyd
Greenhill
Llandrindod
Llanelli
Llansawel
Llanwrtyd
Penderyn
Rhaeadr Gwy
Talyllychau
Dinbych-y-pysgod
Ystalyfera

## KILVEY HILL

Alltwen
Llansawel
Porth Tywyn
Cilffriw
Craig-cefn-parc
Efail-fach
Mynydd Emroch
HP Mynachlog Nedd
VP Mynachlog Nedd
Pontardawe

## LLANDDONA

Amlwch
Arfon
Bethesda
Gogledd Bethesda
Betws-y-coed
Caergybi
Caernarfon
Cemaes
Coed Derw
Conwy
Deiniolen
Dolwyddelan
Ffestiniog
Gronant
Llandecwyn
Llanengan
Maentwrog
Mochdre
Morfa Nefyn
Prestatyn
Trefor B
Waunfawr

## CEFN DIGOLL

Broneirion
Carno
Castell Caereinion
Ceri
Llanbrynmair
Llandinam

Llanfyllin
Llangadfan
UHF Llangurig
Llangynog
Llanidloes
Llanrhaeadr-ym-
Mochnant
Moel y Sant
Tregynon

## MOEL-Y-PARC

Y Bala
Betws-yn-Rhos
Cefn Mawr
Cerrigydrudion
Corwen
Cyffylliog
Glyn Ceiriog
Glyndyfrdwy
Llanarmon-yn-Iâl
Llandderfel
Llanddulas
Llangernyw
Llangollen
Llanuwchllyn
Pen-y-banc
Penmaen-rhos
Pontfadog
Pwll-glas
Storeton Cymru
Wrecsam Rhos

## PRESELI

Abergwynfi
Aberllydan
Bronnant
HP Croeserw
VP Croeserw
Cynwyl Elfed
Dolgellau
Dyffryn
Glanyfferi
Abergwaun
Glyncorrwg

Hwlffordd
Llandyfrïog
Llandysul
Llangrannog
Llangybi
Llwyn-onn
Mynydd Pencarreg
Bae Trefdraeth
Doc Penfro
Pencader
Rheola
Tyddewi
Llandudoch
Tre-fin
Tregaron
Ystumtuen

## GWENFÔ

Aberbîg
Abercynon
Aberdâr
Y Fenni
Abertyleri
Abertridwr
Bargoed
Bedlinog
Melin Ifan Ddu
Blaenau Gwent
Blaenafon
Blaenllechau
Blaenau
Aberhonddu
Cas-gwent
Clydach
Cleirwy
Crucywel
Crucornau
Crymlyn
Cwm-ffrwd-oer
Cwmafon
Cwmaman
Cwmfelin-fach
Deri
Dowlais

Glynebwy
De Glynebwy
Glynrhedynog
Fernhill
Gellifendigaid
Gilfach
Llan-fach
Llan-ffwyst
Llangeinwyr
Llanharan
Llanhiledd
Llys-wen
Machen Uchaf
Maesteg
Merthyr Tudful
Trefynwy
Mynydd-bach
Mynydd Machen
Nant-y-moel
Nant-y-glo
Cwmogwr
Pennar
Pennorth
Penrhiw-ceibr
Pont-y-pŵl
Pontypridd
Porth
Rhondda Fach
HP Rhondda
VP Rhondda
Rhymni
Rhisga
Pontsenni
De Maesteg
De Tredegar
Ffynnon Taf
Tonpentre
Tonypandy
Tonyrefail
Trebannog
Trecastell
Trefechan
Treharris
Tynewydd
Cilâ Uchaf

Brynbuga
Teras y Fan
Wattsville
Ynysowen

# IS-RANBARTH GORLLEWIN LLOEGR

## MENDIP

Avening
Backwell
Caerfaddon
Blakeney
Box
Bryste Barton House
Bryste Ilchester
Crescent
Bryste Kings Weston
Bryste Montpellier
Bryste Warmley
Bruton
Burrington
Calne
Carhampton
Cerne Abbas
Chalford
Chalford Vale
Chilfrome
Chiseldon
Chitterne
Cirencester
Clearwell
Coleford
HP Corsham
VP Corsham
Countisbury
Crewkerne
Crockerton
Dursley
Easter Compton
Exford
Frome
Hutton
Kewstoke
Kilve

Lydbrook
Marlborough
Monksilver
Nailsworth
Ogbourne St George
Parkend
HP Pillowell
VP Pillowell
Porlock
Portbury
Portishead
Redbrook
Bae Redcliff
Ridge Hill
Gorllewin Ridge Hill
Roadwater
Seagry Court
Siston
Slad
Stroud
Tyndyrn
Ubley
Upavon
Washford
West Lavington
Westwood
Woodcombe
Wootton Courtenay